~ www.ecorwyddfa.co.uk ~

# ECO'r Wyddfa

Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 469 Hydref 2018 Pris: 70c




# Cynnal Traddodiad

**Bob blwyddyn cynhelir Gŵyl Flodau yn eglwys hynafol Nant Peris; traddodiad sy'n ymestyn yn ôl cyn cof y trigolion presennol. Fe'i cynhelir yn ystod yr wythnos sy'n arwain at Sul Diolchgarwch, ble caiff aelodau'r eglwys, cyfeillion ac eraill ddod a blodau i'r eglwys er cof am anwyliaid. Roedd yn amser pwysig iawn yn hanes bywyd amaethyddol yr ardal, oherwydd roedd y Sul Diolchgarwch wastad yn dilyn y Ffair Nant flynyddol.**

Peidiodd y ffair anifeiliaid ers blynyddoedd, ond cynhaliwyd 'Ffair Nant' arall ers rhai blynyddoedd gydag wythnos o weithgareddau a chystadleuthau cynnyrch gardd a chegin yn cyd-redeg â'r Ŵyl Flodau. Eleni ni fu'n bosib cynnal y ffair, ond mae rhai o ferched y pentref yn parhau i gynnal traddodiad yr Ŵyl Flodau, gyda'r eglwys ar agor i dderbyn blodau yn ddyddiol gydol yr wythnos yn arwain at Sul Diolchgarwch, ac yr oedd yr eglwys yn werth ei gweld.

Ers talwm hefyd, roedd yn draddodiad i'r torchau blodau a osodid mewn cromen wydr ar y beddau, i gael eu cario'i mewn i'r eglwys yn ystod wythnos yr Ŵyl a'u gosod ar y ffenestri. Byddid yn eu gadael yno wedyn dros fisoedd y gaeaf i'w gwarchod rhag y tywydd cyn eu hail-osod ar y beddau pan ddeuai'r gwanwyn.

A thywydd garw'r gaeaf diwethaf a fu'n gyfrifol am orfod tocio canghennau o goeden Jacan (Sycamorwydden) yn y fynwent hefyd. Ond ni chafodd y pren ei wastraffu. Bu crefftwr lleol yn defnyddio'r pren o'r canghennau a dociwyd i greu croes a dau ganhwyllbren sydd bellach yn sefyll ar yr allor o fewn yr eglwys.

Mewn oes pan fo traddodiadau'n mynd yn angof ac yn diflannu'n raddol, calondid yw gwybod fod selogion o fewn ein bro yn barod i ysgwyddo'r baich o gynnal traddodiad arbennig sy'n perthyn i eglwys y Nant.

ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >

ECO'r Wyddfa

CYMRAEG

RHIF 469
Hydref 2018
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**GOLYGYDD YR IFANC**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Hafan, Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Rhian Elin George, Swn yr Engan, Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**TREFNYDD DOSBARTHU**
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)

**BETHEL:** Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**LLANBERIS:** Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, Peris, 56 Glanffynnon (675384)

**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com

**PENISARWAUN:** Katie Williams, Ty'n Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

| Rhifyn | Copi i law | Bwndelu | Ble |
|---|---|---|---|
| Tachwedd | Sul 21 Hydref | Gwener 2 Tachwedd | Llanberis |
| Rhagfyr | Sul 18 Tachwedd | Gwener 30 Tachwedd | Caeathro |
| Nadolig/Ionawr | Sul 9 Rhagfyr | Gwener 21 Rhagfyr | Llanrug |

## LLYTHYRAU

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

Annwyl ddarllenwyr,
Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn galw am siaradwyr Cymraeg i wirfoddoli ar gynllun cenedlaethol newydd o'r enw 'Siarad'. Nod y cynllun yw i baru siaradwyr Cymraeg gyda dysgwyr er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer yr iaith mewn awyrgylch anffurfiol a magu hyder.
Mae'r cynllun wedi cael ei beilota mewn pedair ardal wahanol yn gynharach eleni ac wedi bod yn llwyddiant. Cynhaliwyd lansiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac erbyn hyn mae cyfle i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru i gymryd rhan.
Mae'r cynllun ar gyfer dysgwyr sy'n dysgu ar lefel Canolradd neu'n uwch y sector Dysgu Cymraeg. Bydd parau yn ymrwymo i gwrdd am oleiaf 10 awr i sgwrsio. Bydd y dysgwyr yn cael gwybodaeth am weithagreddau a chyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hardaloedd lleol hefyd.
Am fwy o wybodaeth, anfonwch e-bost os gwelwch yn dda at swyddfa@dysgucymraeg.cymru neu ewch i gofrestru ar dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad

Yn gywir iawn,
Hawys Roberts
Prif Swyddog Cyfathrebu
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
hawys.roberts@dysgucymraeg.cymru

---

Annwyl Ddarllenwyr
Hoffwn ddiolch o waelod calon i staff, rhieni, Llywodraethwyr a phlant Ysgol Gynradd Llanrug am eich haelioni arbennig iawn ar achlysur fy ymddeoliad.
Cefais ddiwrnod i'w gofio ar fy niwrnod olaf yn yr ysgol, ac rydwyf yn hynod ddiolchgar i'r plant, y staff presennol a chyn-aelodau o staff yr ysgol am wneud y gwasanaeth ymddeoliad yn brofiad braf a bythgofiadwy.
Diolch i Ieuan Wyn am ei englyn penigamp, i Dafydd Idriswyn, Robin a Dylan am eu geiriau hynaws a charedig, ac i Gwyndaf am roi popeth ar gof a chadw.
Bydd gennyf hiraeth mawr wedi'r holl flynyddoedd hapus iawn yn yr ysgol, a bydd peidio croesi'r bont am Lanrug yn brofiad chwithig.
Dymuniadau gorau i'r dyfodol i'r staff, Llywodraethwyr ac yn bennaf i'r plant.

Yn gywir,
Eirian Gwynfydd Howells


# CYNGERDD

**NEUADD YSGOL BRYNREFAIL**
**SADWRN 1 RHAGFYR 7.00 o`r gloch**
*ARTISTIAID*
TRIO | PIANTEL
SIAN WYN GIBSON (soprano) | GWEN ELIN (theatr cerdd)
CôR MEIBION DWYFOR | PLANT YSGOL PENISARWAUN
ANTUR WAUNFAWR
CATRIN LLEWELYN GRUFFUDD (piano)
CHLOE a IOLA (dawns)
ENSEMBLE PRES YSGOL BRYNREFAIL

Cyfeilydd – Annette Bryn Parri
Arweinydd – Gwyn Parri
**TOCYN - £10 – ar gael drwy ffonio 01286 871 330**
**Elw`r noson i gronfa staff wnaeth golli eu gwaith yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun**


## RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

£50: Er cof am Rosina Alcroft, Adelaide, Awstralia, gan y teulu.

£20 Mrs Grace Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch, Llanberis.

£10: Iris Jones, 9 Hafan Elan, Llanrug; Teulu Gareth Wyn, gynt o'r Waunfawr; Teulu Treforfan, Waunfawr.

£5: Helen, Deiniolen.

Annwyl olygydd,
Ydi darllenwyr Eco'r Wyddfa yn bobl cwis ac yn awyddus i ennill arian mawr?
Mae Cwmni Da yn cynhyrchu cwis newydd fydd yn cael ei ddarlledu ar S4C yn y flwyddyn newydd.
16 CYSTADLEUYDD! 2 SIED! 1 ENILLYDD A LOT FAWR O LWC!
Mae cydweithio a gwrthweithio yn sgiliau hanfodol yn y cwis yma. Bydd rhaid i'r cystadleuwyr fod yn ddigon hyderus i gamu ymlaen os oes pwnc maent yn arbenigo ynddo ond hefyd yn ddigon synhwyrol i gamu nôl os ydi aelod arall o'r tîm yn gwybod mwy am y pwnc dan sylw.
Byddwn yn ffilmio yng Nghaernarfon naill ai ym mis Rhagfyr 2018 neu Ionawr 2019.
Os oes gan rywun ddiddordeb mae croeso iddyn nhw gysylltu â ni dros ebost: rhannu@cwmnida.tv neu trwy ffonio 01286685300

## Dechrau Canu Dechrau Canmol

Bydd y Gymanfa'n cael ei chynnal yn Eglwys y Santes Fair ym muriau'r dref, efo Huw Foulkes (yn wreiddiol o Fethel) wrth y llyw ac Iwan Wyn Williams (arweinydd Hogia'r Ddwylan) ar yr organ.
Bydd perfformiad arbennig gan Côr Dre o emyn dôn fuddugol Eisteddfod Genedlaethol 2018, a gyfansoddwyd gan Ann Hopcyn (un o drigolion Caernarfon). Bydd y bennod yn cael ei darlledu ar 2 Rhagfyr, sef Sul cynta'r Adfent.

# `TRIO` YN WASHINGTON DC

Rhwng Awst 30 a Medi 2 eleni, cynhaliwyd Gŵyl Cymru Gogledd America yn Alexandria, Virginia. Dyma`r trydydd tro i`r ŵyl gael ei chynnal yn Washington DC. Cynhaliwyd yr ŵyl yn yr Hilton Alexandria Mark Center. TRIO,ynghyd ag Annette Bryn Parri, a Gwen Elin (Enillydd Ysgoloriaeth Bryn Terfel) oedd yr artistiaid oedd yn cynnal y cyngerdd agoriadol. Daeth y cyngerdd i ben gyda threfniant Annette o `Calon Lân` (alaw – The Rose) Erbyn i`r rhifyn hwn o`r Eco fynd i`r wasg, `roedd yna dros 50,000 wedi gwylio recordiad byw o`r perfformiad – ar dudalen Facebook TRIO.

`Roedd y croeso i TRIO a`u perthnasau yn un cynnes iawn: cafwyd cyfle i gyfarfod Cymry alltud gyda chysylltiadau â Deiniolen, Nant Peris a`r Felinheli.

Ar 31 Awst, cynhaliwyd nifer fawr o seminarau. Yna ar 1 Medi, cafwyd cyngerdd yng nghwmni John Ieuan Jones (Bae Colwyn) a Chôr `Eschoir` o Lundain. Ar y nos Sul, daeth yr ŵyl i ben gyda Chymanfa Ganu. Dyma`r 87ed cymanfa genedlaethol i gael ei chynnal.

Yn naturiol, manteisiwyd ar y cyfle i ymweld ag atyniadau o bwys yn y brif ddinas – National Museum of American History; National History Museum; Lincoln Memorial; US Holocaust Memorial Museum a`r Tŷ Gwyn.

Profiad arbennig i grŵp poblogaidd gyda gwreiddiau pob un ohonynt yn Neiniolen.



## Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

Roedd Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon yn rhwydd lawn ar gyfer cyfarfod cyntaf Y Cylch i wrando ar Harri Parri yn rhoi braslun i ni o hanes rhyfeddol John Puleston Jones, y Pregethwr dall, a fu am gyfnod yn Weinidog yn Dinorwig. Trwy gymorth sleidiau cawsom gip olwg ar fywyd a gwaith y gŵr rhyfeddol hwn a oedd yn ddall o'i fabandod ond a lwyddodd i fyw bywyd llawn a difyr. Fe ddylai y Cofiant arno fydd allan cyn bo hir fod yn ddarllen anhepgor i bawb ohonom.

Hydref 16eg am 7.30 yr hwyr yn yr un lleoliad bydd Christine James, y Bardd a'r Cyn Archdderwydd, yn gwmni i ni. Dowch draw i'w chefnogi ac i fwynhau noson arbennig arall.




## Yn ystod y mis aeth heibio....

- Mis o gau ffyrdd am wahanol resymau ym mhentrefi'r fro – ac ambell un yn parhau ar gau oherwydd gwaith sylweddol. Pont Huws Drygist yn Llanberis yn achosi nifer o broblemau a chadw deupen y pentref ar wahan! Ffordd yr Orsaf yn Llanrug wedi cau, ac er fod arwyddion amlwg mewn nifer o safleoedd arni, roedd yn syndod faint o yrrwyr oedd yn methu eu darllen neu'n credu mai neges ar gyfer pawb ond y nhw oedd yno!

- Arriva yn cyhoeddi fod gwasanaeth bws rhif 88 o Lanberis i Gaernarfon yn cael ei ddiddymu ganddynt o Fedi 24ain ymlaen. Cysylltwyd â Chyngor Gwynedd a chafwyd ar ddeall fod cwmni arall wedi derbyn contract i redeg y gwasanaeth.

- Cyfnod o ddewis arweinwyr newydd (neu gadw'r hen rai) i'r pleidiau gwleidyddol yng Nghymru. UKIP a'r Toriaid eisoes wedi gwneud eu penderfyniad. Ymgeiswyr Llafur a Phlaid Cymru yn parhau â'u hymgyrchoedd. Ond faint o newid mewn gwirionedd fydd yna o gael ceffyl blaen newydd?

- Y Prif Weinidog yn styfnig ymladd ei hochr yn Ewrop, ond y frwydr honno'n ymddangos yn bitw iawn o'i chymharu â'r rhyfel cartref o fewn ei phlaid ei hun yng nghoridorau Westminster. Ac mae Cloc Brexit yn araf dician tuag at yr awr dyngedfennol...

- Y Blaid Lafur yn cyhoeddi y byddant yn newid rheolau ar hap-chwarae os/pan fyddant mewn grym. Digon o amser tan hynny i roi punt neu ddwy i lawr ar ba mor gynnar/hwyr y bydd Mrs May yn gadael/cael ei gwthio o'i swydd.

- Ystadegau'n dangos fod 5,626 o ail-gartrefi yng Ngwynedd. Ddwy flynedd yn ôl penderfynodd Cyngor Gwynedd godi'r dreth o 50% ar ail-gartrefi, ond yn ôl adroddiad diweddar datgelwyd fod llawer o'r perchnogion yn osgoi talu'r cynnydd ac amddifadu'r Cyngor o incwm sydd a mawr ei angen i arbed rhagor o doriadau i ni'r trethdalwyr. Mae'n ymddangos fod perchnogion ail-gartrefi yn osgoi'r dreth ychwanegol yn gyfreithiol, drwy gofrestru eu heiddo fel 'busnesau' ac yn derbyn gostyngiad treth busnesau bach! Mae'n broblem led-led gwledydd Prydain – Cernyw yn enwedig, ac y mae galw ar i Lywodraeth Cymru i ddeddfu i dynhau'r gwendidau sy'n caniatau i hyn ddigwydd.

# Merched y Wawr



*Bethanne Williams, Llywydd Cangen Llanrug. Meirwen Lloyd, Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr a Mary Roberts, Llywydd Rhanbarth Arfon.*

Estynnwyd croeso cynnes i nifer dda o aelodau ynghyd ac aelodau newydd gan y Llywydd, Bethanne. Cychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad gyda Megan yn cyfeilio. Derbyniwyd rhai ymddiheuriadau a llongyfarchwyd Ann a Dafydd a hefyd Meirwen a Selwyn ar eu Priodasau Arbennig. Llongyferchir Meirwen a Selwyn ar ddod yn daid a nain i Anni Gwyneth. Anfonir ein cofion anwylaf at Menna gan ddymuno popeth da iddi a llongyfarchiadau iddi hi a John ar dod yn hen nain a hen daid i Anni Meredydd. Estynnwyd ein cydymdeimlad â theulu'r ddiweddar Ann Roberts, bu Ann yn aelod o gangen Rhiwlas am flynyddoedd ac ymunodd â ni ar ôl symud i Lanberis. Diolchodd Megan i bawb am y geiriau caredig wedi ei phrofedigaeth lem o golli ei chwaer, Eira, ac wedi ei thriniaeth yn yr ysbyty.

Llongyfarchwyd Eirlys a Mair Huws ar eu pen-blwyddi arbennig a braf gweld Myfanwy wedi gwella'n ddigon da wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Atgoffir pawb am y Cwis Cenedlaethol ar Dachwedd 9fed a'r Ffair Aeaf ar 26 a 27 o Dachwedd. Derbyniwyd llythyr o ddiolch ar ran Hosbis yn y Cartref Gwynedd ac Ynys Môn am y rhodd garedig iawn tuag at alluogi'r Elusen i ddarparu cynhaliaeth ariannol i'r Gwasanaeth Nyrsio Cartref i gleifion gyda salwch sy'n byrhau bywyd ac i gwrdd â chostau cadw'r Ganolfan Hosbis Dydd a'r Clinigau Therapi Cyflenwol. Derbyniwyd gair o ddiolch hefyd gan Bwyllgor Eisteddfod Pentref Penisarwaun am y rhodd hael.

Cafwyd adroddiad ariannol trylwyr gan ein Trysorydd, Pat, hi hefyd yw Trysorydd y Rhanbarth eleni. Pris Aelodaeth am y tymor 2018/19 yw £16.

Mae Cangen Llanrug i'w canmol yn fawr y tymor hwn gyda Bethanne yn Llywydd deheuig y gangen, Mary Roberts yn Llywydd Rhanbarth Afon ac yn bennaf oll llongyferchir Meirwen Lloyd, Llywydd Cenedlaethol y Mudiad.

Dydd Mercher, Awst 8fed am 1.30 yn y Babell Lên, Canolfan y Mileniwm, cafodd Meirwen ei hurddo yn Llywydd Cenedlaethol gyda chyflwyniad gan Ferched y Wawr y De-ddwyrain gyda 'Y Gwylliaid Peisiog'. Yn yr urddo cymerwyd rhan gan Mary Roberts, Bethanne ac aelodau o gangen Llanrug yn canu 'Llongau Caernarfon'. Cyflwynwyd cerdd i Meirwen gan Manon Rhys a mawr oedd diolch Meirwen i'r trefnwyr am sicrhau diwrnod i'w gofio. Dymunir pob rhwyddineb a mwynhad i ti, Meirwen, yn ystod dy lywyddiaeth. Ein balchder ni fel cangen yw'n 'Trio' o fenywod cydwybodol.

Ein gwraig wadd oedd yr amryddawn, Annette Bryn Parri gydag orig o 'Ar Lafar a Chân' yn olrhain hanes 'Trio Cymru' sef Bedwyr, ei mab; Emyr Gibson o Ddeiniolen, a Steffan, gyda'i nain yn wreiddiol o Ddeiniolen, y tri yn gantorion o fri. Daethant at ei gilydd yn 2012 dan ofal Annette. Bathwyd yr enw 'Trio Cymru' a difyr oedd clywed Annette yn adrodd eu hanesion hwyliog, yn enwedig gyda ffraethineb Emyr. Maent yn brysur tu hwnt, ac wedi ymddangos ar Pnawn Da a Heno ac i'w clywed yn aml ar radio Cymru. Fel y dywedodd Emyr, 'Rydan ni'n "Trio" a mi wnawn ni "Drio" eto a Dal i "Drio",' a phan yn hen a pharchus mi fyddwn ni wedi blino "Trio" ', ond diolch byth mae blynyddoedd tan hynny. Mwynhawyd clywed Annette yn chwarae nifer o'u caneuon swynol. "Trio" mewn siwtiau parchus ydy'r hogia ac maent yn brysur yn cyfoethogi dyddiaui priodasol ac mae Gwyn yn brysur yn trefnu'r gwahanol gyngherddau. Mae dwy gryno ddisg o ganeuon poblogaidd gan y Trio; y gyntaf 'Mair a wyddet' a'r ail 'Cân y Celt'. Gyda ffraethineb, agosatrwydd a'r dwylo cerddorol medrus fe gawsom ni chwip o noson i gychwyn y tymor. Yn sicr fe fyddwn yn siŵr o DRIO cael noson eto yng nghwmni Annette. Dymunir pob hwyl a llwyddiant i'r dyfodol i Drio Cymru (Trio Bro'r Eco).

Diolchwyd i Annette gan Bethanne gyda chymeradwyaeth fawr gan yr aelodau i gyd. Enillydd y raffl oedd Bethanne. Diolchir i Linda, Susan, Ann Lloyd, Eirianwen a Olwen am y baned. Genod Penisarwaun fydd yng ngofal y baned a'r raffl ar Hydref 9fed pryd y cawn gwmni Dafydd Whiteside Thomas gyda hanes 'Llanrug Ddoe a Heddiw'.

Ar Hydref 19 bydd dathlu llywyddiaeth Meirwen yng Ngwesty'r Celt am 7.30 yh. Mae cais am wirfoddolwyr i helpu gyda 'Rota Cinio' Hafan Elen ar foreau Mawrth, o 11.45 tan 1.30.

# Ysgol Gynradd



**Glanllyn**

Cafodd 25 o blant blwyddyn 6 ddechrau anhygoel i'w blwyddyn ysgol gyda trip 3 diwrnod i Glanllyn. Bu'r plant yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau a dyma rhai ohonynt yn barod ar gyfer rhwyfo ar lyn Tegid!



**Blwyddyn Ysgol Newydd**

Mae pawb wedi setlo bellach yn eu dosbarthiadau newydd a rydym yn croesawu 38 o blant i'r dosbarth Meithrin.

Dyma lun o blant y dosbarth Derbyn ar ei diwrnod cyntaf.

# *Parhad* LLANRUG

**Hoffai Cylch Ti a Fi** Penisarwaun ddiolch i Westy Seiont Manor, Llanrug am eu rhodd caredig iawn wedi digwyddiad a drefnwyd gan Shannon Owen. Cynhaliwyd barbeciw ar y 10fed o Awst gyda disgo, gitarydd a chanwr byw yn ogystal a phaentio wynebau. Codwyd raffl gyda gwobrau hael £99 ar gyfer y Cylch. Diolch am eich cefnogaeth.

Diolch yn fawr

Yvonne Salisbury, Arweinydd Cylch Ti a Fi Penisarwaun.

**Babis Newydd** Llongyfarchiadau mawr i Jonathan a Ceri Newell, Rhos Annedd, Ffordd Llanberis, ar enedigaeth merch fach, Elan Lois, chwaer i Cian a Cai.

Daeth Albert a Carol Lynes, Tŷ Newydd, Ffordd Glanffynnon, yn daid a nain eto pan anwyd mab bach. Jensen, i Alex ac Abbi. Pob dymuniad da iddynt.

**Priodas** Llongyfarchiadau mawr i Wendy, merch Selwyn a Vera Jones, Ffordd yr Orsaf, ar ei phriodas yn ddiweddar. Pob dymuniad da i chi eich dau.

**Diolchiadau** Dymuna Iris, 9 Hafan Elan, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 mlwydd oed.

**Plaid Cymru**

Ennillwyr Clwb cant Mis Medi

1..Rolant Wynne

2..Gwyndaf Hughes

**Cymdeithas Alzheimer**

Yn dilyn eu rhedeg noddedig yn Ras 5k Llanrug, derbyniodd Diane Williams ac Eirianwen Thomas lythyr o ddiolch am eu cyfraniad o £400 tuag at y Gymdeithas. Gyda diolch i bawb am eu nawdd.

## *Arian er cof*




Cyflwynwyd siec er cof am y ddiweddar Jude Hughes, Glanffynnon, i Ambiwlans Awyr Cymru gan ei wyrion a'i wyresau yn ystod mis Medi.

**Capel y Rhos**
**Oedfaon mis Hydref**

Hydref 7 – y gweinidog Parch. Marcus Robinson

Hydref 14 – Ms Karen Owen

Hydref 21 – Oedfa Ddiolchgarwch y Plant

Hydref 28 – Parch. Euron Hughes

## *Cofio Dewrder Iona*



Ym mis Gorffennaf eleni, fe gollwyd gwraig ifanc 46 oed oedd yn enedigol o Llanrug. Bu farw Iona Hilldrup, neu Iona Pritchard gynt o Glanmoelyn, ar ôl brwydr hir a hynod ddewr yn erbyn tiwmor ar yr ymennydd.

Roedd yn wraig gariadus i Simon, yn fam werthfawr i Aurian ac Ioan, yn ferch arbennig i Dafydd a Lynda a chwaer annwyl i Lois a'i phriod Steven. Ar ôl gadael ysgol Brynrefail gwnaeth Iona ei hyfforddiant nyrsio yn Ysbyty Guy's Llundain, yna aeth i Ysbyty St George's yn y ddinas. Wedyn symud i Ysbyty Treforus, Abertawe ac i'r adran ddamweiniau. Dyrchafwyd hi i'r Adran Ymchwil yn yr Ysbyty am weddill ei gyrfa lwyddiannus.

Am dros 18 mis bu Iona'n brwydro'n erbyn y salwch, ac yn ystod y 7 wythnos olaf cafodd ofal hynod o arbennig yn Hosbis Tŷ Olwen yn Abertawe. Mae'r teulu eisoes wedi cyflwyno rhodd ariannol anrhydeddus iawn i'r staff yno fel gwerthfawrogiad o'u hymroddiad a'u gofal o Iona.

Fel teyrnged i Iona daeth dos 40 o deulu a chyfeillion ynghyd a cherdded taith noddedig i ben yr Wyddfa ac yn ôl – dydd Sadwrn, Medi 22ain. Aeth nifer eraill i fyny ar y trên a'u cyfarfod ar y copa. Roedd nifer dda wedi teithio i fyny o Dde Cymru hefyd i wneud yr ymdrech arbennig. Galwyd y digwyddiad yn "Iona Warrior Princess Wish you were here Snowdon Walk".

Er mor drist y golled a'r hiraeth, roedd y diwrnod yn ysbrydoliaeth i'r teulu ac yn fodd iddynt symud ymlaen i'r dyfodol. Maent yn hynod ddiolchgar i bawb ym mro'r Eco am eu holl gefnogaeth a'u rhoddion eisoes.

Mi fydd 'ELUSEN Tiwmor yr Ymennydd' yn derbyn yr arian noddedig ac os oes unrhyw un yn awyddus i gyfrannu er cof am Iona, mae'r gronfa ar agor tan ddiwedd Hydref. Gellir anfon unrhyw gyfraniad i Dafydd a Lynda, 8 Afon Rhos, Llanrug gyda diolch ymlaen llaw.

# Cydnabod Gwasanaeth

Mae'r Parch John Pritchard wedi gwasanaethu eglwysi'r fro ers deng mlynedd ar hugain. Derbyniwyd adroddiadau gan eglwysi Cefn y Waun ac Ebenezer, Deiniolen yn datgan eu diolch am ei ymroddiad, nid yn unig i'w ofalaeth, ond hefyd i fywyd diwylliannol y fro, gan gynnwys "Eco'r Wyddfa".




**DATHLU DEG AR HUGAIN**

Deuthum ar draws yr enw `David John Pritchard` pan oeddwn yn blentyn yn Ysgol Gwaun Gynfi. Un flwyddyn, cynhaliwyd Cymanfa`r Annibynwyr yng Nghwm y Glo, a chyhoeddwyd o`r Sêt Fawr yn aml mai David John Pritchard, Eglwys Nant Padarn, Llanberis oedd yn ennill yr holl wobrau am gystadlaethau ysgrifenedig i blant ein hoedran ni.
Deuthum i adnabod John yn well ym mis Medi 1966, pan oedd y ddau ohonom yn nosbarth 1A yn Ysgol Brynrefail. Bu`r ddau ohonom yn yr un dosbarthiadau drwy`r ysgol, gan astudio pynciau tebyg yn y chweched dosbarth. Nid yn unig fod John yn ddisgybl galluog, ond `roedd yn beldroediwr da hefyd – ac yn chwaraewr caled ar adegau!
Yn 1972-73, ef oedd prif ddisgybl bechgyn yr ysgol a minnau`n ddirprwy.
Aeth y ddau ohonom ymlaen i Brifysgol Bangor - John yn astudio Efrydiau Beiblaidd, a minnau`n astudio Efrydiau Beiblaidd a Chymraeg. Fe wnaethom raddio yn 1976, ac aeth John ymlaen i ennill gradd BD yn 1978.
Ym Mhen Llŷn yr oedd gofalaeth gyntaf John (yn 1979) – Capel Annibynwyr Abersoch; Capel Bwlchtocyn ; Eglwys Horeb Mynytho ac Eglwys Seion Llanbedrog. Yn ystod y cyfnod hwn y ganed tri mab hynaf John a Falmai, sef – Dafydd, Gethin a Gruffydd.

Ni welais John am rai blynyddoedd ar ôl gadael coleg. Erbyn 1987, `roedd y Parch Trefor Lewis wedi penderfynu symud o`r ofalaeth yn Neiniolen a Llanberis. Yna, ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhorthmadog yn 1987, fe wnaeth John a minnau gwrdd ar ddamwain. Ar ôl hel atgofion am yr hen ddyddiau ac am hen ffrindiau, cyfeiriais at yr adnod yn Efengyl Marc (pennod 6), sy`n dweud "nid yw proffwyd heb anrhydedd ond yn ei fro ei hun ac ymhlith ei geraint ac yn ei gartref". Fy nghwestiwn nesaf oedd – "gan gofio mai yn Llanberis y cefaist ti dy fagu, fyddet ti yn ystyried dod yn ôl i Llanberis ac i Ddeiniolen, fel gweinidog? "
Oedodd John am ychydig, ac yn bwyllog a doeth (fel y bu hyd heddiw), dywedodd "mi feddylia` i am y peth".
Maes o law, daeth John ar brawf atom, ac yn 1988, sefydlwyd ef yn weinidog Capel Coch, Nant Padarn, Nant Peris, Ebeneser, Cefnywaun a Disgwylfa. Bu John, Falmai a`r bechgyn yn byw mewn tŷ gweinidog yn Llanrug, nes i `Cilfynydd`, eu cartref newydd yn Llanberis, fod yn barod (yn 1991).
Erbyn hyn, mae adeilad Cefnywaun wedi ei werthu a Disgwylfa wedi ei ddymchwel. Ond yn 2005, ychwanegwyd at weddill yr Eglwysi yr oedd John yn gyfrifol amdanynt– Bethlehem (Talybont) a Charmel (Llanllechid). Mae John hefyd yn helpu gyda`r gwaith yn Eglwys Tanycoed, Llanrug.
Ar wahân i fod yn weinidog dros nifer o Eglwysi, mae John hefyd wedi dal swyddi o bwys gydag enwad yr Annibynwyr. Bu`n ysgrifennydd Cyfundeb Gogledd Arfon am flynyddoedd, ac ef yw Cadeirydd presennol y Cyfundeb.
Ar wahân i gyfrannu`n sylweddol i fywyd Cristnogol Dyffryn Peris, mae ei gyfraniad i fywyd diwylliannol yr ardal wedi bod yn un gwerthfawr iawn hefyd. Yn ychwanegol i`w ymwneud â chylchoedd llenyddol y fro, bu`n un o olygyddion Eco`r Wyddfa am gyfnod. Mae ei golofn `Un funud fach` wedi ymddangos yn ddi-feth yn yr Eco ers 1992. Nid peth hawdd yw meddwl am destun cyfoes, a`i berthnasu i Gristnogaeth – a hynny yn fisol.
Mae`r un peth yn wir am gylchgrawn `Gronyn`, sy`n ymddangos ar ffurf papur, ac yn electronig. Sefydlwyd `Gronyn` gan John ym mis Medi 2011, a`r stori gyntaf i ymddangos oedd yr un am yr erchyllterau a welwyd yn Efrog Newydd pan welwyd awyrennau yn plymio`n fwriadol i`r `Twin Towers` yng Nghanolfan Fasnach y Byd
Aled, mab ieuengaf John a Falmai yw`r unig un i beidio cael ei fagu yn Abersoch. `Cilfynydd` fu ei gartref ef erioed, ac yno y cafodd ddathlu ei ben blwydd yn 18 oed ym mis Medi eleni. Bu 1988 yn flwyddyn anodd i John a`r teulu. Ni ellid cael `gwraig gweinidog` gwell na Falmai, a fu farw ym mis Mawrth eleni. Cefais i`r fraint o gydweithio â hi am ddeuddeng mlynedd – yn Ngholeg Meirion Dwyfor. Mae ffydd, argyhoeddiad ac addfwynder John wedi helpu i`w gynnal mewn blwyddyn anodd iawn.
Ar ran aelodau Ebeneser, hoffwn ddiolch i`r Parchg John Pritchard am ei wasanaeth diflino a`i gefnogaeth dros gyfnod o 30 mlynedd, a gwn y cawn yr un arweiniad pwyllog a doeth ganddo wrth i Ebeneser wynebu cyfnod digon heriol yn hanes yr Eglwys.
Gwyn Parri – Ysgrifennydd Cyffredinol, Eglwys Ebeneser, Deiniolen.

**Llongyfarchiadau**

Ar brynhawn Sul, 9fed o Fedi, fe fu i Eglwys Cefn y Waun gael y fraint o longyfarch ein Gweinidog, y Parch John Pritchard, ar ddathlu ohono dri deg o flynyddoedd yn ein gwasanaethu fel Gweinidog.
Yr oedd cynulliad reit dda wedi dod ynghyd i'w longyfarch a'i anrhegu gyda chloc hardd.
Pan yn cyhoeddi, fe fu iddo gael tipyn o fraw pan fu i mi ofyn iddo symud oddi wrth yr astell a dod i eistedd i'r gynulleidfa, gan imi ddweud wrtho fod rhywbeth pwysicach na phregeth i'w drafod yn ystod y gwasanaeth. Yr wyf yn meddwl iddo gael tipyn o sioc a'r gynulleidfa erbyn hyn wedi dechrau chwerthin ac yntau yn reit gyndyn o symud.
Buan iawn y daeth i sylweddoli beth oedd yn mynd ymlaen a chredaf, ar ôl y sioc, iddo fwynhau ei hun.
Yr ydym fel Eglwys yn dra diolchgar iddo am yr hyn y mae wedi ei gyflawni yn ystod y blynyddoedd, er i'r flwyddyn olaf fod yn galed ac anodd iawn, yn amlach na pheidio yn dal i gario ymlaen a wnai.
Mae gennym fel aelodau o eglwys Cefn y Waun le mawr i ddiolch iddo a gobeithio yn fawr am lawer blwyddyn arall.
Fe ddaeth gohebydd yr Eco i fyny i dynnu ei lun. Cofiwch fod yn rhaid ufuddhau i'r blaenoriaid weithiau
Diolch yn fawr iawn i chwi, Mr Pritchard,
Marian Jones



# *Arolwg cyhoeddus: Pa wasanaethau Cyngor sydd bwysicaf i bobl Gwynedd?*

Gyda'r patrwm o gyllid annigonol gan y llywodraeth yn debygol o barhau am y blynyddoedd nesaf, mae Cyngor Gwynedd eisiau gwybod pa rai o'r holl wasanaethau y mae'n eu darparu sydd bwysicaf i drigolion y sir.

Mae'r Cyngor yn annog pobl a mudiadau lleol i gymryd y cyfle i ddweud eu dweud drwy gwblhau holiadur sydd ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/Blaenoriaethaugyda chopïau papur hefyd ar gael yn Siopau Gwynedd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y Cyngor.

Bydd cyfle hefyd i drigolion Gwynedd holi a thrafod yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw mewn cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus dros yr wythnosau nesaf.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn:

"Ein gweledigaeth fel Cyngor ydi cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywydau llawn yn eu cymunedau, ac i wneud hynny mewn sir sy'n un o'r gorau i fyw ynddi.

"Bydd gwireddu'r weledigaeth yma yn her sylweddol o ystyried y pwysau ariannol sylweddol mae'r Cyngor yn parhau i wynebu oherwydd 'agenda llymder' parhaus y llywodraeth. Yn wir, mae ein hamcangyfrifon diweddaraf yn dangos y gallai'r bwlch ariannol sy'n ein wynebu fod rywle rhwng £11 miliwn a £20 miliwn yn y cyfnod hyd at Mawrth 2022.

"Oherwydd hyn, yn fuan iawn bydd angen i'r Cyngor bwyso a mesur pa rai o'n gwasanaethau i roi blaenoriaeth iddyn nhw dros y blynyddoedd nesaf.

"Cyn hynny, rydan ni'n awyddus i glywed pa wasanaethau sydd bwysicaf i bobl Gwynedd. Fel Arweinydd y Cyngor, mi fyddwn i'n annog cymaint o bobl ag sy'n bosib i ddweud eu dweud fel y gallwn gael y darlun cliriaf bosib am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw."

Gall trigolion a mudiadau lleol gymryd rhan yn yr holiadur byr a syml ar-lein ar www.gwynedd.llyw.cymru/Blaenoriaethau - mae copïau papur o'r holiadur hefyd ar gael o'r Siopau Gwynedd ym Mhwllheli, Dolgellau a Chaernarfon ac o lyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y Cyngor.

Dros yr wythnosau nesaf, bydd cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal mewn gwahanol rannau o Wynedd, lle bydd Arweinydd neu Ddirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn bresennol i ateb cwestiynau'r cyhoedd. Bydd y cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal yn:

* Penygroes - Ysgol Dyffryn Nantlle ar ddydd Iau, 4 Hydref (7pm-9pm)
* Bangor – Ysgol Friars ar ddydd Mawrth, 9 Hydref (7pm-9pm)
* Caernarfon – Ysgol Syr Hugh Owen ar ddydd Mawrth, 16 Hydref (7pm-9pm)

Dylai unrhyw un sy'n awyddus i fynychu'r cyfarfodydd cyhoeddus gofrestru o flaen llaw ar www.gwynedd.llyw.cymru/CadwLle neu drwy ffonio 01286 679 912.

## DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd.
Ffôn: (872133)

**Merched y Wawr**: Daeth criw ohonom ynghyd ar gyfer noson gynta'r tymor newydd, sef noson o 'Sgwrs a Chân' gydag Annette Bryn Pari. Yn ôl ei harfer, rhoddodd Annette hanes diddorol y caneuon yr oedd yn ei chwarae mor gelfydd, a soniodd am ddatblygiad y grŵp Trio, sy'n ennill poblogrwydd ledled Cymru, a'r caneuon y mae Emyr, Bedwyr a Steffan yn mwynhau eu canu, o dan ei chyfarwyddyd hi. Diolchwyd i Annette am noson o adloniant difyr iawn gan Marian Williams, Cadeirydd y Gangen.


Byddwn yn cyfarfod ar y drydedd nos Lun o bob mis drwy'r gaeaf. Ar 15 Hydref bydd Chris Hughes o Bwllheli yn dod i gynnal Helfa Drysor ar fap gyda ni, a byddwn yn dechrau gwneud trefniadau ar gyfer ein swper Nadolig.

Cefnogwch ein heisteddfodau lleol!!

**Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen**

a'r cylch

i'w chynnal yn
Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen
**dydd Sadwrn, 27ain Hydref 2018 am 12 ganol dydd a 6.30pm**



**BEIRNIAID**

**CERDD:** Rhian Owen a Dylan Cernyw
**LLEFARU:** Carwyn John
**LLENYDDIAETH:** Elinor Gwynn
**GWAU, GWNïO a CHOGINIO:** Anita Long, Brynrefail
**ARLUNIO, GWAITH LLAW A FFOTOGRAFFIAETH:** Gareth Roberts
**CYFEILYDD:** Annette Bryn Parri

Rhaglenni /gwybodaeth gan: y Pwyllgor/ Ysgrifennydd ar 01286 870898 /07546 926582, ar-lein http://smala.net/steddfota/?page_id=285 (gwefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru) + caffi EB, a siopau a llyfrgelloedd lleol

Dyddiad cau y **Llenyddiaeth: 5ed Hydref.** Cynhelir y noson **Celf a Chrefft** yn yr ysgol: **19eg Hydref**

GERAINT OWEN
CARPEDI
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR O BATRYMAU
(01286)650552 Mob. 07712779475

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

# Adfer Cofeb Gwenllïan ar Gopa'r Wyddfa




Ym mis Ebrill eleni fe gafodd cofeb Gwenllïan oedd ar gopa'r Wyddfa, ei thynnu oddi ar y graig a'i dwyn gan ddihirod anhysbys. Gwenllïan oedd unig blentyn Llywelyn ap Gruffudd, Tywysog Cymru (m. 1282). Cafodd y fandaliaeth hon gryn son ar y cyfryngau, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol, gan fod y gofeb bellach yn wrthrych eiconig ar gopa'r Wyddfa ers iddi gael ei gosod yno yn 2008 dan fendith awdurdodau'r Parc Cenedlaethol.

Gosodwyd y gofeb gan Gymdeithas y Dywysoges Gwenllïan i godi ymwybyddiaeth o gyfnod cythryblus yn hanes Cymru ac i atgoffa'r cyhoedd o dynged plant y tywysogion Cymreig wedi trychineb 1282/3.

Darllenodd Gary Eccleston, sy'n cadw busnes Cutting Edge Slate Works ym Mhrestatyn, am dynged y gofeb. Cynigiodd greu cofeb newydd ar lun y gwreiddiol gan gynnwys ei gosod ar y graig, lle arferai'r gwreiddiol fod, a hynny yn rhad ac am ddim.

Cytunwyd fod y gofeb yn cael ei gosod ar safle'r gwreiddiol

Mae hyn yn gwneud i fyny am y trychineb a achoswyd yn y gwanwyn gan y dihirod ac unwaith eto bydd cofeb lechen i Gwenllïan ar gopa'r Wyddfa.

Ar ran y Gymdeithas dywedodd Tecwyn Vaughan Jones;

'Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar iawn i Gary Eccleston am ei garedigrwydd ac i'r cannoedd o bobl eraill sydd wedi cynnig eu cymorth, o helpu i godi arian ar y cyfryngau cymdeithasol i gynnig arian personol, i gael cofeb newydd. Mae'r Gymdeithas yn falch fod diflaniad y gofeb wedi cael cymaint o sylw a bod nifer fawr o bobl am weld cofeb arall yn yr un man.

Un o deitlau tad Gwenllïan, Llywelyn, oedd Arglwydd Eryri, ac mae'r gofeb wedi ei gosod ar fan uchaf ei dywysogaeth.

# Cyflwyno Bws Elusennol i Ddefnyddwyr Cadeiriau Olwyn

Mae Barbara Bus Gwynedd wedi agor lleoliad newydd yng Nghartref Ceris Newydd yn Nhreborth ger Bangor gan gynnig gwasanaeth gwerthfawr i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn nad ydynt yn gallu defnyddion trafnidiaeth gyhoeddus a sydd heb unrhyw fodd arall o fynd a dod.

Bu Siân Gwenllian AC yn bresennol yn lansiad y gwasanaeth newydd i Arfon gan groesawu'r ddarpariaeth wych yma a fydd yn gwneud byd o wahaniaeth i fywydau pobl.

"Mae pobol hŷn a phobol o bob oed sydd â phroblemau symudedd yn gallu mynd yn unig iawn pan maen nhw'n canfod eu hunain yn methu a gwneud yr hyn mae'r gweddill ohonom yn ei gymryd yn ganiataol. Mae rhywbeth mor syml â thrip i'r dref neu i gaffi yn gallu bod yn amhosib i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn sydd heb eu cludiant eu hunain, felly mi fydd gallu bwcio'r Barbara Bus am ddiwrnod allan yn gwneud gymaint o wahaniaeth."

Ers dechrau cangen Gwynedd o Barbara Bus naw mlynedd yn ôl, mae'r elusen wedi bod yn rhoddi cymorth i bobl na fyddai wedi gallu mynd yma ac acw heb drafferthion mawr. Mae Barbara Bus yn caniatáu i gyfeillion, teulu neu ofalwyr fenthyg cerbyd wedi addasu i anghenion defnyddwyr cadair olwyn am ddiwrnod, benwythnos neu am gyfnod hirach, gan roi'r cyfle i bobol fynychu digwyddiadau cymdeithasol, gyrraedd apwyntiadau meddygol neu hyd yn oed fynd ar eu gwyliau yn gyfforddus ac am bris rhesymol.




Enwyd elusen Barbara Bus ar ôl geneth ifanc o'r enw Barbara Werndly a gafodd ei pharlysu gan y clefyd Polio yn un-ar-bymtheg oed ac a dreuliodd ei bywyd i gyd fel oedolyn yn gaeth i wely ysbyty. Dechreuodd Barbara yr elusen yn 1968 yn Ysbyty Orthopedig Middlesex hanner can mlynedd yn ôl pan gafodd ei hysbrydoli gan anrheg o hen fan a oedd yn galluogi iddi fynd allan yn y cerbyd efo'i ffrindiau yn gyrru.

Meddai Siân Gwenllian:

"Mae stori anhygoel Barbara yn un o gryfder mawr ac awydd i wella ansawdd bywyd pobol gydag anableddau. Fe welodd hi gyfle ac fe gydiodd hi ynddo fo gyda'i dwy law sydd yn dipyn o beth i ferch mor ifanc. Rydw i'n rhagweld y bydd Barbara Bus yn adnodd hollbwysig i nifer o deuluoedd yr ardal hon, ac rydw i wrth fy modd mai Treborth sydd wedi ei ddewis yn leoliad iddo. Y cwbwl sydd raid i deuluoedd ei wneud ydi cysylltu â'r elusen, gwirio argaeledd y tri bws sydd ar y safle, a bwcio'u dyddiad."

# Cyhoeddi Cynllun i Feithrin Cenhedlaeth Newydd o Awduron a Darlunwyr Plant

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn falch o gyhoeddi y bydd yn cynnal cwrs arloesol i awduron a darlunwyr plant 3-7 oed ar y cyd â Llenyddiaeth Cymru mewn ymdrech i lenwi silffoedd siopau llyfrau gyda chyhoeddiadau gwreiddiol Cymraeg i blant.

Bydd y cwrs yn gyfle arbennig i chwe awdur a chwe darlunydd newydd ym maes ysgrifennu i blant ddod ynghyd am wythnos yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd. Cynhelir y cwrs cyfrwng Cymraeg hwn yn ystod hanner tymor mis Chwefror 2019, ac mae'r broses ymgeisio ar agor nawr. Croesawir ceisiadau gan awduron a darlunwyr newydd, rhai sydd â pheth profiad yn y maes, ac awduron a darlunwyr profiadol mewn meysydd eraill sy'n edrych am her newydd.

Dan ofal dau diwtor, y Prif Lenor Manon Steffan Ros a'r darlunydd poblogaidd Jac Jones, bydd y cwrs yn cynnwys: gweithdai dwys i ddatblygu crefft y cyfranogwyr; astudiaeth o'r maes llyfrau plant gan edrych ar lenyddiaeth fyd-eang am ysbrydoliaeth; ac ymweliadau gan awduron gwadd. Daw'r wythnos i ben ar Ddydd Gŵyl Dewi gyda chyfle i'r awduron a darlunwyr gynnig syniadau o flaen panel o olygyddion gweisg Cymru.

Meddai Helen Jones, Pennaeth Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen Cyngor Llyfrau Cymru, "Rydym yn falch o allu cydweithio gyda Llenyddiaeth Cymru ar y prosiect cyffrous hwn i feithrin talent ym maes ysgrifennu a darlunio llyfrau llun a stori. Bydd gweld cynnydd yn y cynnyrch gwreiddiol yn y genre pwysig yma yn rhywbeth y dylid ei groesawu."

Meddai Leusa Llewelyn, Pennaeth Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, "Braf fydd cael cydweithio â'r Cyngor Llyfrau i ddarparu cwrs fydd yn help i lenwi bwlch penodol yn y byd cyhoeddi Cymraeg, a hynny yng nghwmni cewri yn y maes llên plant. Braf hefyd yw cael cydweithio â'r Cyngor i ymateb i alw'r Dr Siwan Rosser yn ei Harolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc y dylid datblygu mwy o weithgareddau i sbarduno syniadau ac i fentora awduron llyfrau plant."

Y dyddiad cau i ymgeisio yw 5.00 pm brynhawn Mercher 31 Hydref. Am ffurflen gais a chyfarwyddiadau ar sut i ymgeisio am le ar y cwrs, neu am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Llenyddiaeth Cymru neu ebostiwch: tynewydd@llenyddiaethcymru.org

Caiff y cwrs hwn ei drefnu a'i ariannu gan Gyngor Llyfrau Cymru a Llenyddiaeth Cymru, gyda diolch hefyd i deulu'r diweddar Olwen Dafydd am rodd hael tuag at y cwrs.

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyr

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT
menter fachwen
RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163
www.menterfachwen.org.uk
CYFENTER
Menter Môn
CYNGOR GWYNEDD COUNCIL
ERDF
Llywodraeth Cymru Welsh Government

## TEITHIAU CERDDED MIS HYDREF 2018

**GWENER 4 HYDREF 1.30yp**

CRWYDRO CORNELI CUDD DINORWIG (tua 2 filltir)

CYCHWYN: 'TURNAROUND' BYSIAU, DINORWIG

EITHA ANODD GYDA LLWYBRAU ANWASTAD. SGIDIAU CERDDED DA.

**MERCHER 17 HYDREF 1.30yp**

HANESION PORTHAETHWY A PONT MENAI (tua 2½ milltir)

CYCHWYN: MAES PARCIO COED CYRNOL, PORTHAETHWY

EITHA HAWDD. BYDDWN YN CROESI'R BONT DWYWAITH.

**MAWRTH 23 HYDREF 1.30yp**

TAITH DAEREG BANGOR (tua 2½ milltir)

CYCHWYN: MAES PARCIO 'BEACH ROAD', HIRAEL, BANGOR

EITHA HAWDD.

**SGWRS:**

**CYFRES COF A CHADW: HANESION PORTHAETHWY**

**NOS LUN 8 HYDREF 7.00-8.00yh**

Ar y cŷd a Menter Iaith Bangor

LLEOLIAD: Y POPDY, LÔN POPTY, BANGOR

Tâl trwy gyfraniad yn unig. Lluniaeth ysgafn ar gael.

**Am ragor o fanylion (yn cynnwys taith Cerdded Nordig mis Hydref), cysylltwch a**

**Gareth Roberts yn Menter Fachwen ar 07867 810576**

**Neu e-bostiwch: 'garethroberts754@yahoo.co.uk' os dymunwch cylchlythyr misol 'Cynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen'.**

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT
menter fachwen
RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163
www.menterfachwen.org.uk
CYFENTER
Menter Môn
CYNGOR GWYNEDD COUNCIL
ERDF
Llywodraeth Cymru Welsh Government

CHWILOTA
chwilota.wordpress.com

## Hanes trist y chwarelwr o'r Foel

Cafodd Gareth Roberts (Menter Fachwen), sy'n byw yng Ngallt y Foel, ymweliad annisgwyl yn ddiweddar. Yno, roedd gŵr o Gaerffili yn holi am fwthyn o'r enw 'Y Foel'; sef yr hen fwthyn yn union tu cefn i gartref Gareth. Yno y bu hen daid y gŵr o Gaerffili yn byw cyn gadael i wasanaethu'n y fyddin yn ystod y Rhyfel Mawr.

Ganed William Robert Jones yn 1889 yn fab i Robert William ac Anne Jones. Yn 1891 roedd y teulu'n byw yn Tŷ Coch, Brynrefail, ac wedi symud yno i fyw o Fangor rywdro rhwng 1884 a 1887. Roedd dau blentyn hŷn: Joseph a Mary. Erbyn 1901 roedd y teulu wedi symud i Dinorwic Mill, Brynrefail, ond Mary bellach wedi gadael cartref. Chwarelwyr oedd y tad a Joseph. Roedd y felin wedi cau ers rhyw ddwy flynedd a pheiriannau'r felin wedi eu gwerthu mewn ocsiwn yn 1900. Felly, tŷ cyffredin oedd o erbyn hyn.

Tua 1910/11 priododd William Robert gydag Ellen (Nel) Hughes, ac yn 1911 roeddent yn byw gyda'i rhieni hi yn Tan y Grisiau, Gallt Foel. Roedd Ellen yn ferch i David ac Elisabeth Hughes. Roedd ganddynt fab bychan 7 wythnos oed o'r enw Robert David.

Roedd William R. Jones yn aelod o'r Sherwood Foresters (Catrawd Nottingham a Derby) ac fe'i anfonwyd i faes y gad. Roedd yn un o'r criw a ddefnyddiwyd i dyllu twnneli er mwyn tanio ffrwydron o dan amddiffynfeydd yr Almaenwyr ar y Somme. Chwarelwyr a glowyr o Gymru oedd yn gwneud llawer o'r gwaith hwn.

Lladdwyd William R. Jones ar y 6ed o Fedi 1918, gan adael Ellen yn weddw ifanc gyda thri o fechgyn. Fe'i claddwyd ym Mynwent Gymunedol Lebucquiere. Yn yr adroddiadau papur newydd am y cyfnod dywedir fod ganddo hefyd un brawd ac un chwaer, felly mae'n bosib fod ei rieni wedi marw. Doedd ei frawd, Joseph, ddim yn gwasanaethu yn y fyddin. Roedd erbyn hyn yn America. Mudodd yno yn 1905 o Lerpwl ar y llong 'Caronia'. Roedd yn byw yn Wilkes-Barr, Pennsylvania. Ym 1913 priododd Gwen Jones, ond bu farw yn 1930. Methais a chael gwybodaeth am y chwaer, Mary.

Tybiwyd mai cael ei saethu gan fwledi'r gelyn a wnaeth William R. Jones, ond flynyddoedd yn ddiweddarach y daeth y gwir i'r amlwg. Ar ei wely angau ddegawdau yn ddiweddarach, cyfaddefodd un o'i gatrawd ei fod wedi saethu William Robert Jones i farwolaeth yn ddamweiniol.

Robert David Jones (1911- ?) oedd un o'r plant, ond pwy oedd y ddau fab arall (ac un ohonynt yn daid i'r gŵr o Gaerffili)? Tybed oes rhai o'r teulu yn dal yng Ngallt y Foel neu yn ardal Deiniolen?

## Sbeshials' Bethel




Prin yw'r wybodaeth am y rhai fu'n gwarchod Bethel a'r ardal yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Anfonwyd y llun sy'n dyddio o 1943, gan Huw Hughes. Er fod enwau pob un wedi eu rhestru o dan y llun, ni ellir ychwanegu mwy o wybodaeth – ar wahan i ddau. Roedd S/SG G. Jones, yn byw yn Cora Linn. Hywel Ellis yw taid Pat, gwraig Huw. Roedd yr Hywel Ellis hwn yn fab i Hywel Ellis arall a alwai ei hun yn Pencerdd Gwyrfai.

A oes mwy o wybodaeth ar gael am weddill y 'Sbeshials'?

# Rasys Cwn Defaid Betws Garmon

Cawsom beth o hanes hynt a helynt y Rasys hyn eisoes. Yn bersonol, bum yn chwilio am hanes Cwpan Jacobus Spyker a roddwyd yn rhodd yn ystod 1910'au gan y gŵr a fu'n gyfrifol am yr aerial ropeway o'r gwaith haearn dros ysgwydd Moel Eilio i Lanberis. Roedd amod ynghlwm â'r cwpan. Os byddai unrhyw un yn ei hennill deirgwaith yna byddai'r cwpan yn eiddo i'r cystadleuwr hwnnw. Erbyn dechrau'r 1920'au roedd yr enw wedi diflannu oddi ar raglen y Rasys, ac felly, roedd yn amlwg ei bod wedi ei hawlio. Ond gan bwy?

Prin iawn yw'r cofnodion, ond o chwilio adroddiadau papur newydd, cawn fod cystadleuwr o'r enw John Jones, Hafoty Bach, Trawsfynydd, wedi ei hennill ddwywaith. Y siawns oedd ei fod wedi ei chipio am y drydedd waith hefyd, ac wedi ei hawlio. Ond pwy oedd y John Jones hwn? Bu Gwilym Morris Jones (sydd wedi cyhoeddi peth o hanes Rasys Betws Garmon yn rhifyn diweddaraf 'Fferm a Thyddyn') yn holi Mrs Lydia Thomas, Y Bontnewydd, sydd a llond cwpwrdd o gwpannau a enillwyd gan ei thad, y diweddar John Pritchard, Llithfaen mewn ymrysonfeydd. Roedd John Pritchard yn adnabod John Jones, Hafoty Bach, a'r ddau wedi cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn llawer ymrysonfa. Credai hi fod cysylltiad efo Bron Aber ger Trawsfynydd, a gyda'r wybodaeth hon medrais 'ddarganfod' ŵyr i John Jones. Cadarnhaodd fod stôr o gwpannau yn y cartref, ac addawodd chwilio a oedd Cwpan Jacobus Spyker yn un ohonynt. Efallai y cawn wybod mwy erbyn y rhifyn nesaf...

Yn y cyfamser dyma lun Cwpan Alves – o gyfnod ychydig yn ddiweddarach, ond eto o Rasys Cwn Defaid y Betws. Enillwyd y cwpan hwn gan John Pritchard, tad Mrs Thomas. Ac y mae'r enw yn gyfarwydd wrth gwrs. Mae ennill cwpan o'r un enw yn her i dimau pel-droed yr ardal a thu hwnt. Fe'i cyflwynwyd gan Elliot Alves, y miliwnydd a fu'n byw yng Nghastell Bryn Bras ac a fu'n noddi amryw o weithgareddau lleol. Yn Saesneg mae'r arysgrif : "Vale of Betws Garmon Sheepdog Society, September 1929. Open to the World. Presented by Elliot Alves, Mayor of Caernarvon."



# Ceiniogau'r Meirw

Gyda diolch i Hywyn Williams (Deiniolen gynt) am fwy o wybodaeth am y ddau frawd o'r Bwlch Uchaf a laddwyd yn Fflandrys ym Medi 1916. Roedd y mis Medi hwn yn gyfnod du iawn i ardal Deiniolen, oherwydd tybir fod naw neu ddeg o fechgyn yr ardal wedi syrthio ar faes y gad – mwy o'r un ardal nac unrhyw le arall yn yr hen Sir Gaernarfon, gan gynnwys trefi Caernarfon a Bangor. Yn ogystal â Richard a Iorwerth Morris lladdwyd cefnder iddynt o'r enw Robert Morris o Glwt y Bont.

Roedd Richard Morris yn blismon ym Mangor cyn ymuno â'r fyddin, a chofnodir ei enw ar Gofeb Heddlu Sir Gaernarfon. Roedd y gofeb honno yn arfer bod yng nghyntedd Llys y Goron ym Mhen Deitsh, Caernarfon. Tybed a yw wedi ei throsglwyddo i'r adeilad newydd yn Ffordd Llanberis bellach?

Roedd y diweddar John Morris, Rhiwen yn nai i frodyr Bwlch Uchaf.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com





RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr

## CAEATHRO
Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**Tynfa Misol 1af.** (40) £40: Jane Lloyd, Tyddyn Cae; 2il (88) £25: Heledd, 5 Stryd Glangwna; 3ydd (36) £15: Sharon Thomas, 9 Stryd Glangwna: 4ydd (3) £5: Gwenno Bebb, Bryn Mair.

**Gwasanaethau y Capel**

Ar ddydd Sul, Hydref 7ed, am 2.00 gwasanaethir gan y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson.

Oedfa Ddiolchgarwch fydd hon a bydd y casgliad rhydd yn mynd tuag at Banc Bwyd Caernarfon.

Derbynnir rhoddion o fwyd hefyd i'r Banc Bwyd mewn basged o fewn cyntedd y Capel.

Ar ddydd Sul, Hydref 14eg, am 2.00 gwasanaethir gan Y Parch Harri Parri, Caernarfon.

**Gwaeledd** Mae nifer o bobl y pentref yn dioddef gwaeledd a thriniaethau mewn ysbytai. Cofiwch bod nifer fawr hefyd yn meddwl amdanoch, a brysiwch wella.

## CWM Y GLO

**Undeb y Mamau** Ailddechreuwyd ein cyfarfodydd yn Eglwys St Mair bnawn Mawrth, Medi 18. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parch Jeffrey Hughes. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd cyfarfod yn y festri. Derbyniwyd ymddiheuriadau a thrafodwyd rhai materion. Mae angen y pabis coch erbyn y cyfarfod nesaf. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Lesley ac Auriel a diolchwyd iddynt gan Dorothy.

Terfynwyd y cyfarfod.

**Cydymdeimlwn** yn ddwys â Tracy a Martin Jones, Cefn-y-Gader yn eu profedigaeth o golli tad Tracy, Mr Alec Steward, yn Derby yn ddiweddar.

**Cydymdeimlwn** hefyd â Mrs Esme Jones, 24 Dôl Afon, yn ei phrofedigaeth o golli nith, Rosina Alcroft yn Adelaide, Awstralia.

**Cydymdeimlwn** hefyd â Dafydd a Vera Price, Tan-y-graig, ar golli chwaer Dafydd ym Mlaenau Ffestiniog.

## BRYNREFAIL
Mrs Lowri Prys Roberts -Williams. Ffôn: 870580

**Sefydliad y Merched** Cymerodd aelodau'r gangen ran eleni eto yng nghystadleuaeth Cwpan y Rhosynnau yn Sioe Frenhinol Llanelwedd. Dan arweiniad Pat Jones bu gweithio egniol a mawr yw y diolch i bawb am eu gwaith yn natblygiad y cyflwyniad. Daeth y gangen yn bedwerydd mewn cystadleuaeth o safon uchel.

I gloi gweithgareddau'r haf cafwyd noson yng nghwmni Anita Long yn adrodd hanes ei hymweliad gyda'i phriod Steve i Nepal. Cafwyd adroddiad diddorol am yr ardal – gyda lluniau o'r pentrefi a'r adeiladau trawiadol. Hefyd dangoswyd y difrod, yn dilyn storm, a brofodd yr ardal a'r adeiladau hanesyddol yn ddiweddar. Ymwelodd nifer o'r aelodau â Ffair Haf y Ffederasiwn yng Nghaernarfon a chafwyd noson hwyliog o Bingo ar y thema 'Anifeiliaid' yng Nghlwb Cymdeithasol, Llanberis.

Ymhlith gweithgareddau mis Medi bu diwrnod o Chwaraeon ym Mhorthmadog a gwahoddwyd Dr Berwyn Owen, Prif Fferyllydd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, i'r cyfarfod o'r gangen leol. Cafwyd sgwrs addysgiadol ganddo yn ei ddull hwyliog yn sôn am ei waith a'r ymchwil i feddyginiaethau newydd sydd ar y farchnad.

**Yr Eglwys Bresbyteraidd**

Llongyfarch Llawenydd yn yr oedfa ar Fedi 2il oedd cael cyhoeddi fod ein Gweinidog y Parch Marcus Wyn Robinson wedi ei benodi yn Llywydd Etholedig Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru am 2019/20. Ac yntau ar hyn o bryd yn Ysgrifennydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd rydym yn ei longyfarch ar yr anrhydedd pellach hon a ddaeth i'w ran.

Fel y mae'n wybyddus y bu iddo ef a'r Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn yn awr, ddechrau ar eu gweinidogaeth yn ein plith ym mro'r Eco , yn Llanberis a Deiniolen, a'r ddau wedi dringo i gadair Llys uchaf y Cyfundeb.

**Oedfaon Hydref am 5 yr hwyr**

7: OEDFA DDIOLCHGARWCH
dan arweiniad y Canon Idris Thomas, Deiniolen
14: Parch Ddr Elwyn Richards, Caernarfon
21: Oedfa'r Aelodau
28: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon

## DINORWIG
Marian Jones. Ffôn: (01286) 870292

**Diwedd Tymor yr Haf** Erbyn hyn y mae tymor yr Hydref hefo ni ac, fel y byddai yr hen bobl yn dweud pan ddoi Ffair Nant, sydd wedi pasio erbyn hyn, mai cynhebrwng yr haf ydoedd. Mae'n edrych yn debyg, erbyn hyn, ein bod wedi mynd o'r haf bendigedig a gawsom yn syth i'r gaeaf. Mae'r dydd yn cwtio yn ddyddiol a'r nos yn mynd yn hwy. Gwyliau'r haf drosodd a phawb wedi mynd i'w ffordd ei hun.

Erbyn hyn mae'r plantos bach wedi setlo i lawr yn eu hysgolion newydd. Dymuniadau gorau a phob lwc i chi i gyd a gobeithio ar ddiwedd y cyfan, y bydd llwyddiant yn dilyn. Mae yn werth dal ati.

**Pen-blwydd Hapus** iawn i Mrs Joan Rees Williams, un o blant yr ardal sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 94 ers yr ugeinfed o Fedi ac hefyd i'w ffrind ysgol, Beryl o'r Fachwen, ond yn byw yn Llandudno erbyn hyn, hithau yr un oed ac yn dathlu ei phen-blwydd ar yr un diwrnod. Cofion annwyl atoch eich dwy a gobeithio am lawer blwyddyn eto.

**Croeso Adref** Braf iawn oedd cael estyn croeso yn ôl i Gwyneth, Bryn Sardis gynt, hefo'i gŵr i aros yn Ty'n y Fawnog. Mae Gwyneth wedi symud o'r ardal i Awstralia ers bron i hanner can mlynedd. Mae iddynt un ferch o'r enw Myfanwy. Mae Gwyneth yn dal i siarad Cymreg, ond yn anffodus nid yw Myfanwy yn siarad yr iaith. Mae Cymraeg Gwyneth yn dal cystal heddiw ac yr oedd pan fu iddi adael yr ardal, ac mae'n edrych yn dda iawn. Gobeithio ichwi fwynhau eich gwyliau yn ôl yn yr hen ardal a gobeithio y cawn eich gweld gartref eto yn fuan.

**Cofion** Fel ardal anfonwn ein cofion annwyl at Mrs Megan Morris yng Nghartref Plas Garnedd Llanberis yn 103 ac sydd yn disgwyl bob dydd am weld Marsli yn dod adref am wyliau i'w hen gartref o St Helens. Ond yn anffodus mae Marsli wedi cael llawdriniaeth a phethau ddim wedi mynd fel y disgwyl. Mae'n gwella erbyn hyn ac yn gobeithio cael dod adref yn reit fuan. Brysia wella, Marsli, fe fydd yn braf cael dy weld unwaith eto.

## Rhiwlas

Cynhelir Aduniad bnawn Sadwrn, Hydref 13eg, yn y Neuadd Bentref, Rhiwlas, am 2 o'r gloch i unrhyw un â chysylltiad ac Ysgol Waun a'r pentref. Roedd sawl un wedi methu â dod i'r Arddangosfa o Hen Luniau ac yn awyddus iawn i gael cyfarfod er mwyn medru cwrdd â hen ffrindiau. Felly, dewch am sgwrs a rhannu atgofion uwch paned a theisen. Gellir cysylltu â Menai, Margaret neu Ann, neu gallwch ffonio Iona ar 01248 355336 neu Olwen at 01286 674830.

# Cartref Newydd i Wneuthurwyr Ffyn Gogledd Cymru



## Y FAGL

CYLCHGRAWN
Gwneuthurwyr Ffyn Gogledd Cymru

Sefydlwyd Cymdeithas Gwneuthurwyr Ffyn Gogledd Cymru yn 1990 gyda'r bwriad o ddod a gwneuthurwyr ffyn traddodiadol at ei gilydd ac i gadw'r hen grefft yn fyw. Roedd eu cyfarfod cyntaf yn Y Felinheli, cyn symud i adeilad ar safle Coleg Meirion-Dwyfor yng Nglynllifon. Bellach maent wedi ymsefydlu ym mro'r "Eco", ac wedi cael cartref newydd yn Nhŷ Elidir, Deiniolen gyda bendith Menter Fachwen.

Cyfarfu'r criw am y tro cyntaf yn Neiniolen fis Mehefin, ond gydag egwyl dros wyliau'r haf, dechreuodd eu 'tymor go iawn' ar yr ail Sadwrn ym Medi. Archebwyd meinciau pwrpasol – wedi eu gwneud gan weithwyr Menter Fachwen – lle gellid gosod feis i drin y ffyn, a byrddau ar gyfer y cerfwyr. Mae cegin fechan ar gael hefyd – hwylus iawn, gan fod y criw yn treulio diwrnod cyfan yno, o ddeg y bore hyd bedwar y pnawn.

Bwriad y gweithdai misol hyn yw rhoi cyfle i'r aelodau rannu syniadau ac annog unrhyw un sydd â diddordeb yn y grefft i ddatblygu ei sgiliau. Mae'r aelodau profiadol wastad yn barod i roi cymorth i'r rhai sydd am wneud ffyn neu ddysgu cerfio cyrn. Mae'r aelodaeth yn cynnwys dynion a merched, ond mae croeso arbennig i ieuenctid hefyd. Mae cost gweithdy diwrnod yn £3 i aelodau, ond yn ddim ond £1 i rai dan 16 oed. Mae aelodaeth llawn o'r gymdeithas yn £10 y flwyddyn a £4 i rai dan 16 oed.

Bedair gwaith y flwyddyn cyhoeddir cylchgrawn "Y Fagl" sy'n rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau'r gymdeithas, dyddiadau'r gweithdai, a rhestr o'r gwahanol sioeau ble mae'r gymdeithas yn arddangos neu'n cystadlu. Ceir ynddo hefyd wybodaeth ac awgrymiadau ynglŷn â'r grefft.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r ysgrifennydd aelodaeth Anwen Harman, Bwlch y Ffordd, Carmel (01286 881433) neu galwch i mewn yn Nhŷ Elidir o hyn i ddiwedd y flwyddyn ar y Sadyrnau canlynol: 13eg Hydref, 10fed Tachwedd, 8fed Rhagfyr.



*Bwndel o gyrn yn barod i'w didoli.*



*Len Porter, Penisarwaun yn dechrau trin un o'r cyrn yn cael ei wylio gan ddau o'r aelodau*

# Teulu Caban Cibyn





Mewn uned wrth y Ganolfan Ddringo ar Stad Cibyn, Caernarfon mae Age Cymru Gwynedd a Môn wedi rhoi cartref i Shed Dynion ers dros ddwy flynedd bellach, ac y mae'n gartref oddi cartref i griw o ddynion wedi ymddeol am dri diwrnod yr wythnos.

Mae'r syniad o Shed Dynion wedi ei sefydlu ers cryn nifer o flynyddoedd bellach, a'r bwriad gwreiddiol oedd rhoi lle i gyfarfod yn ystod y dydd i ddynion oedd wedi ymddeol ond heb unlle penodol i gymdeithasu. Lledodd y syniad, ac y mae'r criw yng Nghaernarfon yn mwynhau gwneud gwaith llaw; trwsio a chreu o'r newydd, a hynny er budd unigolion, cymdeithasau a chymunedau led-led Gwynedd a Môn.

Brian Cook o Lanrug yw cydlynudd Caban Cibyn (dyna enw'r criw ar eu 'shed'), gyda'r aelodau'n dod o dref Caernarfon a phentrefi bro'r "Eco". Yn ystod mis Medi, y prif brosiect ar y gweill oedd adnewyddu meinciau: hen feinciau o gapeli wedi cau yn cael eu haddasu ar gyfer gerddi unigolion; creu meinciau o'r newydd ar gyfer cymunedau (Bontnewydd yw un o'r pentrefi sydd wedi elwa), a chwblhau archebion arbennig.

Mae 'Tŷ Bach Twt' eisoes wedi ei gwblhau o hen 'pallettes' a'i gyflwyno i Gylch Meithrin yn Noddfa. Mae rhai o'r aelodau hefyd yn brysur yn llunio ceiliogod gwynt, bocsys nythu i adar a phypedau pren a fydd ar werth yn siopau Age Cymru yn Llangefni, Caernarfon, Porthmadog a Blaenau Ffestiniog.

Mae'r Caban ar agor bob dydd Mercher, Iau a Gwener rhwng deg y bore a thri y pnawn. Bydd croeso i ddynion o'r fro droi i mewn i gymdeithasu a chynnig cymorth; boed yn waith coed, ail-gylchu, trwsio a glanhau neu ddefnyddio brwsh paent.

## CLWB BRO BETHEL

Hwyliog, meistrolgar ac addysgiadol. Dyna groniclo chwip o gyfarfod agoriadol i'r tymor dan arweiniad y baledwr amryddawn Gwilym Rhys.

Roedd criw da wedi ymgynnull gan gynnwys sawl aelod newydd. Cofiwch fod croeso cynnes yn aros yn y clwb – dewch draw i gymdeithasu. Mae rhaglen amrywiol a difyr wedi ei pharatoi gan gynnwys ymweliadau, cinio Nadolig a'r trip blynyddol. Mae her yn wynebu trefnwyr y trip gan fod llawer yn dal i sôn am lwyddiant y llynedd. Digon o flaen rybudd i chwi sy'n meddwl ymuno.

Roedd cysgod y Rhyfel Mawr ar ddwy o ganeuon Gwilym. Geiriau dirdynnol Gai Toms i Elis Humphrey Evans (Hedd Wyn) i ddechrau. Yr un a newidiodd yr ysgrifbin fel arf diwylliannol i'r gwn treisgar.

Yna trosiad Myrddin ap Dafydd o eiriau'r Albanwr Eric Boyle sef Cân Tomos Williams. Eto'n ddirdynnol yn rhoddi'r clod i'r milwr cyffredin. " Ni chefais dy alw yn arwr, na gwladgarwr gan y rhai a gwaed ar eu dwylo".

Mae llais Gwilym yn gweddu'n berffaith i faledi o'r fath gyda'r ing a'r golled mor amlwg.

Yna'r hwyliog gyda baled Jac Glan Gors un o dalentau Uwchaled yn y ddeunawfed ganrif. Cân y Sesiwn Fawr – (y llys barn nid penwythnos o feddwdod). Eto llais a datganiad Gwilym yn amlygu'r doniolwch yn nhystiolaeth tystion uniaith Gymraeg i'w barnwyr/ cyfreithwyr uniaith Saesneg. Chwip o faled.

Yna i'r Frongoch, Y Bala. Nid baled am y Gwyddelod a garcharwyd yno wedi gwrthryfel 1916 ond baled 'Galargan Dŵr Tryweryn'. Geiriau Humphrey Humphries yn galaru am gau y Royal Welsh Whiskey Distillery a safai yn flaenorol ar safle Frongoch. Mor eironig yw'r gytgan o gofio hanes Tryweryn hanner canrif ymlaen. " Does dim nad oes gwell i ddyn / na joch o ddwr Tryweryn".

Un o'i ganeuon ei hun wedyn, sef Clychau'r Gôg, cyn diweddu a chân boblogaidd Mynyddog, sef Cartref." Does unman yn debyg i gartref." Na doedd unlle mwy cartrefol na festri'r Cysegr y pnawn hwnnw. Un a'i fryd ar gynnal un o'n prif draddodiadau sef llais y werin drwy eiriau yw Gwilym. Edrychwn ymlaen am ei CD o ganeuon ddaw allan erbyn y Nadolig, ac am ei ymweliad nesaf â'r Clwb.

Y mis nesaf bydd Nia Wyn Williams, Llandegfan yn ein tywys i fyd hen greiriau. Mae croeso i unrhyw un ddod a hen grair gyda hwy i ymestyn y drafodaeth. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.30 ar yr2il o Hydref.

## RHEDEG I NODDI

Unwaith eto eleni bydd Delyth Gwyn ac Iwan Morris yn cystadlu yn Ras Hanner Marathon Caerdydd ar Hydref 7ed. Eto, byddant yn rhedeg i godi arian nawdd i achosion lleol yma ym Methel. Y tro hwn,Y Cylch Meithrin, Pêl-droed dan 10 a Chronfa'r Difib. Diolcjh iddynt, ac os cofiaf yn iawn Delyth sy'n arwain 1-0 yn y gyfres. Amdani eleni felly Iwan.

## PWYLLGOR Y DIFIB

Mae Sioned wedi trefnu i gael noson ymarfer defnyddio'r peiriant yn y Neuadd Goffa ar nos Fercher, Hydref 17 am 7pm.

## DIOLCH

Dymuna Kelly, Callum, Cody a Riley 14, Cremlyn - gweddw a meibion y diweddar Rory O'Donnell – ddiolch yn ddiffuant am y llif o gydymdeimlad gan unigolion a chymuned yn eu colled disymwth. Diolch arbennig i aelodau'r teulu estynedig a fu yn gefn iddynt. Diolch hefyd i'r Tad Adrian Morrin a'r Parch. Marcus Robinson am eu harweiniad teimladwy ddydd yr angladd. Bu llawer oedd yno yn cofio'n hir y teyrngedau clodwiw gan deulu agos, ffrindiau a chyd weithwyr. Diolch arbennig i gwmni E. W. Pritchard am gynnal urddas diwrnod yr angladd. Fe gyfranwyd swm teilwng o arian er cof am Rory, ac fe rennir yr arian rhwng Gwasanaeth Hospis yn y Cartref ac Uned Dydd Alaw yn Ysbyty Gwynedd.

Yr un modd dymuna Vera, Nan, Dewi a theulu estynedig y diweddar Seiriol Davies ddiolch o galon i'r nifer a ddangosodd eu cydymdeimlad mewn sawl ffordd. Diolch i'r Parch. Marcus Robinson am ei weinyddu ddydd yr angladd ac i Richard Llwyd Jones am ei gerdd hynod. Diolch hefyd i'r nifer a gyfranodd swm sylweddol er cof i gronfa Ymchwil Cancr Cymru.

## PARCIO

Mae cynllunio mewn llaw bellach i geisio ymateb i'r gorlif parcio ger y Post. Bydd y blwch parcio i'r anabl yn gyfyngedig i'r anabl bellach gyda hawl i barcio am 30 munud ar y tro .

Braf sylwi hefyd fod nifer o berchnogion tir ar gorneli peryglus wedi tocio ar y tyfiant erbyn hyn. Diolch i chwi. Dyfal donc a dyrr y garreg.

## CAPEL Y CYSEGR

Mae Gweinidog a blaenoriaid Capel y Cysegr yn hynod ddiolchgar i aelodau sydd wedi camu ymlaen i lenwi swyddogaethau tu fewn i'r Capel wedi ymadawiad Glenys a Siencyn i'r De. O ran cyswllt â'r cyhoedd yr enwau i gysylltu â hwy yw Mair Read ( Ysgrifennydd), Margaret Druce ( Ysg. Cyhoeddiadau), ac Edwina Morris ( Llogi a Dyddiadur y Capel). Braf sylwi, un wrth un, fod plant yn ymuno o'r newydd â'r Ysgol Sul. Croeso i unrhyw blentyn ddod draw.

## Y NEUADD

Gair o werthfawrogiad i'r criw bach gweithgar sy'n trefnu gwahanol weithgareddau i gynnal costau dydd i ddydd o redeg yr adnodd. Cadwch olwg ar yr hysbysfwrdd tu allan i'r neuadd am wybodaeth. Ar hyn o bryd mae gwaith mewn llaw i dacluso tu allan i'r neuadd. Ein gwerthfawrogiad gorau i'r criw gweithgar fydd cefnogi'r gweithgareddau.

## CAFFI GALW'I MEWN

Cofiwch y dyddiad: dydd Mawrth, Hydref 30ain. Dyna pryd y cynhelir y Caffi Galw'i Mewn yn y Neuadd, lle cewch baned, cacen a sgwrs.

## CLWB FFERMWYR IFANC

Mae tymor y gaeaf wedi cychwyn gyda chyfarfodydd yn y Neuadd bob nos Lun. Mae croeso i aelodau Newydd i gryfhau y mudiad gweithgar yma sy'n cyfrannu at gynnal a chadw traddodiadau cefn gwlad.

Roedd cyfarfod blynyddol rhanbarth Eryri yng Nghlwb Golff Caernarfon yn un cofiadwy iawn i'n clwb lleol. Daethant adref gyda phum tlws i gyd, gan gynnwys Cwpannau yn yr adran Chwaraeon, y cynnydd mwyaf mewn aelodau a'r marciau uchaf am farnu anifeiliaid drwy Eryri. Daeth dau gwpan unigol hefyd. Robat Griffith ( Caeathro) ennillodd Dlws yr Hwsmon Hŷn. I gyflawni'r dwbwl cipiodd Bedwyr Jones ( Fachell) dlws yr Hwsmon Iau. Clwb sy'n ffynnu felly, ac yn amlwg yn atyniad i ieuenctid ein hardal, yn enwedig gyda dirywiad y Clybiau Ieuenctid bellach.

## CLWB PÊL-DROED IEUENCTID BETHEL

Mae Pwyllgor y clwb wedi cyfarfod ac wedi estyn gwahoddiad i'r tîm merched ddychwelyd i Gae Coed Bolyn dan gyfres o amodau. Â'r Eco yn mynd i'w wely ni wyddir os bydd y tîm merched yn derbyn yr amodau ac yn dychwelyd i Fethel.

Mae'r hen gyfleusterau newid wedi eu trosglwyddo at angen tîm merched Mountain Rangers erbyn hyn. Y pwyslais bellach yw casglu arian at ddatblygu ystafelloedd newid yn y caban newydd.

Eleni bydd dau dim yn oedranau -7, -8, -10 a dan -16 yn cynrychioli'r clwb. Chwaraeir y gemau ar Gae Coed Bolyn a'r nosweithiau ymarfer ar Gae'r Ysgol.

## EISTEDDFOD

Cofiwch y dyddiad: prynhawn a nos Sadwrn, Hydref 20ed. Mae'r ymarferiadau wedi cychwyn ac edrychwn ymlaen at Eisteddfod hwyliog eto eleni. I'r oedolion gofynnir am ddarn o ryddiaith ar gyfer Tlws Llain yr Ardd, neu gorffen y limrig, "Un noson wrth yrru am adra'... . Y cynigion i'r Ysgrifenyddes erbyn Hydref 12. Ymlaen â'r chwysu!

## Newyddion o'r Ysgol Gynradd

**Croeso** cynnes i Mr Gwion Owen fel pennaeth newydd yr ysgol. Mae fel petai wedi bod acw erioed a'r plant i gyd yn hoff o alw yn y swyddfa am sgwrs a gweld y crwban newydd! Mae pawb yn ffyddiog y bydd yr ysgol yn mynd o nerth i nerth o dan ei arweiniad.

### Ffair Grefftau – rhaghysbysiad

Cynhelir y ffair eleni ar nos Iau, 8fed o Dachwedd am 6.00 yr hwyr. Cyfle gwych I brynu pob math o anrhegion a chynnyrch lleol. Bydd yr ysgol yn llawn o stondinau cwmniau lleol, a bydd staff yr ysgol yn cynnig Clwb Gwarchod I'r plant. Pris: £2 yn cynnwys paned a mins pei.

Croeso cynnes i bawb os yn dymuno cael stondin neu ddod i wneud ychydig o siopa Nadolig!

### Clybiau

Mae'r clwb mandarin yn boblogaidd iawn eto eleni a'r plant yn manteisio ar glwb rygbi gyda'r nos.



### Clwb Garddio

Bu'r clwb garddio yn brysur yn medi'r cynhaeaf gan gasglu tatws, nionod a riwbob o'r ardd. Cnwd arbennig, yn barod i fynd i'r gegin i'w droi yn fwyd blasus!




### Beicio

Mae blwyddyn 5 yn ffodus iawn o gael manteisio ar sesiynau diogelwch beicio yn ystod yr wythnosau nesaf.

## Ai arwyr neu gachgwn oedd gwrthwynebwyr cydwybodol y Rhyfel Mawr yn Nghymru ?

Pan gyflwynwyd Gorfodaeth Milwrol yn Ionawr 1916, gwrthododd o leiaf 900 o ddynion blygu i'r drefn ac ymuno â'r Fyddin. Gwrthwynebent ar sail cydwybod – naill ar dir Cristnogol, moesol neu ar dir gwleidyddol. Yn eu plith oedd rhai o bersonoliaethau pwysicaf yr oes yng Nghymru, fel Gwenallt, Arthur Horner a George M.Ll. Davies, ddaeth yn arweinwyr bywyd gwleidyddol, crefyddol a diwylliannol Cymru dros y degawdau canlynol.




Cefnogid y gwrthwynebwyr cydwybodol gan fudiadau gwleidyddol fel y Blaid Lafur Annibynnol a'r radicaliaid ymhlith y glowyr, a'r mudiadau heddychol fel Cymdeithas y Cymod, a'i chylchgrawn Y Deyrnas.

Mae'r llyfr yma yn datgelu yn fanwl pa mor eang oedd y gwrthwynebiad i'r Rhyfel, ac yn esbonio ac yn dehongli'r cysylltiadau rhwng gwrthwynebwyr cydwybodol â'i gilydd. Ac am y tro cyntaf, mae'r gyfrol hon yn esbonio pam fod y gwrthwynebiad i'r Rhyfel Mawr yng Nghymru mor unigryw.



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
*neu*
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AC** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru




## Croeso mawr i ddisgyblion blwyddyn 7!

Bellach mae 122 o ddisgyblion newydd blwyddyn 7 wedi setlo'n dda i fywyd a threfn Ysgol Brynrefail. Mae'r disgyblion wedi eu rha dosbarth: 7S, 7E, 7O a 7N. O dipyn i beth maent wedi dod i ddeall eu ffordd o gwmpas yr ysgol ac erbyn hyn yn gwybod yn iawn ble r wersi a gweithgareddau yn cael eu cynnal.

Rydym ninnau fel staff yr ysgol a gweddill y disgyblion wedi dod i'w hadnabod hefyd. Croeso i Ysgol Brynrefail blwyddyn




## Cyn-brif ddisgyblion yr ysgol yn trosglwyddo'r awennau i'r prif ddisgyblion newydd

Yn ystod wythnos gynta'r tymor newydd daeth dau gyn-brif-ddisgybl yr ysgol draw I gyfarfod er mwyn trosglwyddo'r awennau, sef Tomos Morgan a Rhianwen Williams swyddogion 2018-2019, Efa Roberts, Seren Bowen, Cai Edwards ac Aled Pritchard. Cafwyd cyfarfod buddiol ynghylch cyfrifoldebau a dyletswyddau'r rolau, a thrafodwyd blaenoriaethau gweithredu Cyngor yr Ysgol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.








annu i bedwar
mae'r gwahanol

7!



## Diwrnod Shakespeare i flwyddyn 7

Ar ddydd Llun, Medi'r 10fed cafodd holl ddisgyblion blwyddyn 7 ddiwrnod o weithgareddau llawn hwyl i ddysgu am ddramau Shakespeare. Bwriad y diwrnod oedd canfod pa ddisgyblion fyddai'n addas i gymryd rhan mewn cynhyrchiad o ran o un o ddramau Shakespeare fydd yn cael ei lwyfanu yn Galeri yng Nghaernarfon.

Mae'r ysgol wedi trefnu i fod yn rhan o Ŵyl Shakespeare mewn Ysgolion unwaith eto eleni sy'n rhoi cyfleoedd proffesiynol i ddisgyblion gymryd rhan mewn cynhyrchiad o un o ddramau Shakespeare. Bydd yr adran Saesneg yn mynd ymlaen yn awr i ddechrau ymarfer ar gyfer y perfformiad yn Galeri. Bydd y cynhyrchiad yn gyfle gwych i ddisgyblion blwyddyn 7 arddangos eu doniau actio. Dowch draw i Galeri i'w cefnogi ym mis Tachwedd.





## Newidiadau ar ddechrau blwyddyn newydd

Mae nifer o newidiadau wedi bod yn yr ysgol dros yr haf, llawer ohonynt wedi digwydd mewn ymateb i ddisgyblion wedi i ni holi eu barn am yr ysgol yn ystod tymor yr haf.

Bellach mae gennym ffynhonnau dŵr newydd wedi eu lleoli o gwmpas yr ysgol a phawb yn gallu dod a'u potel ddŵr i'r ysgol i'w llenwi yn ystod y dydd. Mae hyn hefyd yn ffordd o lei-hau'r defnydd o blastig ar dir yr ysgol gan nad ydym bellach yn gwerthu poteli dŵr yn y ffreutur.

Newid amlwg arall yw'r addasu sydd wedi bod i adeilad yr Uned Cynhwysiant. Erbyn hyn mae gennym yr Hafan yn stafell ar gyfer disgyblion bregus ac ar gyfer cyfarfodydd y Grwpiau Annog. Y drws nesaf i'r Hafan mae'r Hwb sy'n stafell ar gyfer disgyblion pan fyddant angen hwb ychwanegol i wneud eu gwaith tu allan i wersi ar adegau. Staff yr Hafan a'r Hwb yw Mr Sion Jones, Miss Hannah Bright a Mr Alun Pritchard.

Mae nifer disgyblion blwyddyn 11 wedi eu hyfforddi i fod yn Bydis Bwlio i flwyddyn 7 y flwyddyn yma. Erbyn hyn mae pob un o ddisgyblion newydd blwyddyn 7 wedi cyfarfod eu bydi bwlio nhw ac yn eu hadnabod o gwmpas yr ysgol.

Rydym hefyd wedi ceisio lleihau'r niferoedd sydd yn y ffreutur ar amser cinio – lle sy'n hynod o brysur bryd hynny! Mae byrddau picnic yn cael eu gosod yng nghefn y neuadd ar ddechrau pob amser cinio er mwyn i'r disgyblion sy'n dod â phecyn bwyd i'r ysgol allu eistedd yno i fwyta.

Y newid amlycaf efallai yw'r dderbynfa newydd sydd gennym, ychwanegiad gwerthfawr iawn i redeg yr ysgol yn ddiogel ac effeithiol o ddydd i ddydd.

**GOHEBYDD**

**Mae angen gohebydd pentre arno ni. Mi fyddai gofyn i'r person fonitro cyfeiriad Ebost Eco y pentref a derbyn negeseuon drwy'r post i'w gyrru ymlaen ar gyfer eu cynnwys yn y papur cyn y dyddiad cau. Gobeithio bydd rywun yn dod ymlaen, ar ôl 6 mlynedd rwy'n barod i basio y baton ymlaen. Diolch, Anna-Marie.**

**Ysgol Gymuned Penisarwaen**

**Gwasanaeth Ffarwelio** – Trefnwyd cyfarfod pnawn Gwener, Gorffennaf 20fed, er mwyn ffarwelio a dymuno'n dda i bump o blant blwyddyn 6 yr ysgol sef, Branwen, Ela, Rebecca, Guto ac Elis wrth iddynt drosglwyddo i Ysgol Uwchradd Brynrefail ym mis Medi. Roedd pob un ohonynt wedi paratoi ar gyfer darllen rhai o'u hatgofion yn yr ysgol. Rhannwyd amryw o dystysgrifau a rhodd iddynt ar ran yr ysgol. Cyflwynwyd tarian disgybl y flwyddyn i Rebecca Parkinson a tharian ymroddiad i Guto Owen. Llongyfarchiadau a phob lwc iddynt i gyd.

**Croeso** - Croesawyd 8 o blant bach newydd i'r dosbarth meithrin, ac 1 i'r dosbarth Derbyn. Mae Osian, Lili, Lili May, Hugo, Ioan. Jac. Anest, Ellis a Menna wedi setlo i lawr yn dda iawn yn ein plith. Yn ogystal rydym yn falch o groesawu Isabel i BL3, Eira, Huw ac Alex i BL4 a Catrin i BL 5.

**Gwersi Nofio** -Bydd y gwersi yn cychwyn yn ystod mis Hydref.

**Gwersi Offerynnol** -Mae 4 o blant yn derbyn gwersi piano a chorn gyda Miss Lois Eifion Jones a 8 yn derbyn gwersi Piano ,Ffliwt a Gitâr gan Mrs Yvonne Clark yn yr ysgol bob wythnos.

**Ymweliadau ar Ysgol** –

Croesawyd Mrs Susan Williams, gweithiwr newydd Cynllun EFE, i'r ysgol bnawn dydd Iau, Medi13eg. Cafwyd amser hwyliog yn ei chwmni yn canu. Diolch yn fawr ac edrychwn ymlaen at yr ymweliad nesaf.

Croesawyd Sara a Karen (Burman Martial Arts ) yma fore Llun, Medi 17eg, i gynnal sesiwn Karate i CA1 a 2. Diolch iddynt am roi eu hamser i alw yn yr ysgol yn achlysurol.

**Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen**

**Pêl Bonws Loteri** - Enillydd Mis Mehefin: oedd Mr Ken Williams Trem, Cynfi, rhif 50. Gorffennaf: Miss Nancy Williams, 9 Llys Y Gwynt, rhif 10 ac Awst: Mrs Ann Paterson, 1 Bryn Tirion, rhif 48.. Llongyfarchiadau iddynt !

**Diolch** – Dymuna Ann Paterson, 1 Bryn Tirion a Liz Jones, 17 Bryn Tirion, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur dathlu pen-blwyddi yn ystod mis Gorffennaf.

**Cydymdeimlad** – Anfonwn ein cydymdeimlad at Delyth, Alwyn a'r teulu Pen y Gaer, yn eu profedigaeth o golli Heulwen, chwaer annwyl i Delyth o Blaenau Ffestiniog.

Yn yr un modd anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at y Parch a Mrs Tegid Roberts a'r teulu yn eu profedigaeth o golli eu hwyres fach, sef merch fach Eurig a'i briod yn Ne Cymru. Pob bendith i chwi gyd fel teulu yn eich colled.

**Eglwys St Helen**

**Trefniadau ar gyfer yr Wyl Diolchgarwch**

**Addurno yr Eglwys**

Bydd yn Eglwys ar agor o 9yb dydd Sadwrn, Hydref 13eg, i'w addurno ar gyfer yr ŵyl, fe werthfawrogir yn ddiolchgar unrhyw gymorth, blodau, llysiau neu ffrwythau.

**Gwasanaethau Diolchgarwch**

Dydd Sul, Hydref 14eg, 10yb Gwasanaeth Cymun teuluol Undebol, mae y gwasanaeth yma yn agored i bawb a fe groesewir yno Aelodau Ysgol Sul Capel Bozra. Yn ystod y gwasanaeth fe gesglir bwyd tuag at y di gartref a'r banc bwyd lleol.

Nos Lun, Hydref 15fed, 6yh Gwasanaeth Hwyrol Weddi y Cynhaeaf gyda'r pregethwr gwadd, Dr Huw Tegid Roberts.

**Swper Cynhaeaf**

Yn dilyn y gwasanaeth hwyrol, Hydref 15fed, yn neuadd yr Eglwys tua 7yh fe gynhelir ein swper cynhaeaf gyda'r siaradwr gwadd, Mr Ray Humphreys, Penarlag. £7 y tocyn yn cynnwys pryd 2 gwrs a phaned.

Estynnir croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod a'r swper cynhaeaf.

**Gwasanaeth sefydlu y Parch Dr Carol Roberts**

Fe fydd y Parch Carol Roberts yn cael ei sefydlu yn Ficer yn y Bala a'r cylch dydd Sul, Hydref 14eg, am 3.30yh. Fe drefnir bws i'r gwasanaeth a bydd manylion pellach yn cael eu cyhoeddi yn lleol, enwau os gwelwch yn dda i swyddogion yr Eglwys erbyn bore dydd Sul, Hydref 7fed.

**Hoffai Cylch Ti a Fi** Penisarwaun ddiolch i Westy Seiont Manor, Llanrug am eu rhodd caredig iawn wedi digwyddiad a drefnwyd gan Shannon Owen. Cynhaliwyd barbeciw ar y 10fed o Awst gyda disgo, gitarydd a chanwr byw yn ogystal â phaentio wynebau. Codwyd raffl gyda gwobrau hael £99 ar gyfer y Cylch. Diolch am eich cefnogaeth.

Diolch yn fawr

Yvonne Salisbury

Arweinydd Cylch Ti a Fi Penisarwaun

**Pwyllgor Neuadd Bentref**

Tynnwyd Clwb Cant Medi a'r enillwyr yw: Wendy Philips, Tai Arthur a Christian Branch, Clwt y Bont.

Cynhelir Pwyllgor yn fuan i drefnu gweithgareddau i godi arian tuag at y gost o redeg y Neuadd Bentref. Hyderir y cawn yr un gefnogaeth gref i'n gweithgareddau.

**Ysgol Sul Bosra** Braf oedd croesawu yr aelodau i'r Ysgol Sul, fore Sul Medi 16, a chafwyd cyfle i gofio am Owain Glyndŵr. Fore Sul, Medi 23ain, croesawyd Cian Harri a Lois Rhodd, plant bach Eurgain Haf ac Iwan, ŵyr ac wyres Anti Ann, i'n plith a'r plant yn dotio at eu hacen ddeheuol o Bontypridd. Roedd y ddau wedi mwynhau eu hunain yn fawr ac am ddod y tro nesaf y byddant yn dod i weld nain a taid. Diolch i Ela am ei gwaith ardderchog fel cymhorthydd. Edrychir ymlaen at gael cwmni Susan Williams, gweithiwr newydd Cynllun EFE, ar Hydref 7fed, wyneb cyfarwydd i blant ein hysgol Sul. Gobeithir cael ymarfer caneuon ar gyfer y Gwasanaeth Diolchgarwch a gynhelir yn Eglwys Santes Helen. Byddwn hefyd yn ymuno ag aelodau'r Eglwys fore Sul y Cofio wrth y Gofeb ar Dachwedd 11.

**Cydymdeimlir** yn ddwys iawn â Lyndsey ac Ian, 5 Tai Bryn Hyfryd, yn eu profedigaeth lem o golli eu efeilliaid bach annwyl.






# Cwmni o Lanrug a Sioe Calangaeaf

Sioe addas i gyfnod y Calangaeaf ydi 'Dygwyl y Meirw'. Cynhyrchir hi gan gwmni o Lanrug o'r enw SEREN DDU A MWNCI, gyda'r awdures blant Angela Roberts ( crewr Anturiaethau Jini Me) yn ysgrifennu a chyfarwyddo.

*"Tydi Taid ddim yma mwyach – ond, yng nghistiau'r atig, mae ei straeon yno'n disgwyl i gael eu darganfod."*

*Wrth i'r plant gyrraedd y neuadd yn eu gwisgoedd Calangaeaf, mae troliau sioe bypedau symudol Taid yn troi'n ffair o fynwentydd dychrynllyd, cysgodion iasoer a chypyrddau o ysbrydion swnllyd; a'r plant yn setlo i wrando ar stori o'r enw… DYGWYL Y MEIRW!*

Drwy gymeriadau traddodiadol Cymreig fel yr Hwch Ddu Gota, y Ladi Wen a Jac y Lantarn, a thrwy fiwsig, hiwmor, goleuadau iasoer, triciau theatrig, pypedau cysgod ac ysbrydion hedegog, mae'r sioe yn gorffen ar nodyn hapus, gobeithiol.

Perfformir hi ddwy waith yn Amgueddfa Lechi Llanberis ar ddydd Iau Tachwedd 1af am 5.00 p.m a 7.15 p.m. . Fe'i noddir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Rhif y trefnydd lleol yw 01248 353084 ar gyfer prynu tocynnau.

**Darperir gweithdy crefft ar gyfer plant wedi'r sioe mewn lleoliadau arbennig, i'w wirio gyda'r trefnydd lleol. Gall y plant hefyd lawrlwytho templedau pypedau cysgod i wneud eu sioe eu hunain, drwy ymweld a'r wefan www.blackstarandmonkey.co.uk**

**Mwy o wybodaeth ar gael drwy ffonio SEREN DDU A MWNCI ar 01248 671214**

**neu e-bostio : seren-ddu-a-mwnci @hotmail.com**




# Cyfarfod Blynyddol Menter Fachwen



Yng nghyfarfod Blynyddol Menter Fachwen ddiwedd mis Medi daeth tymor Alan Pritchard, Cwm y Glo i ben, ac anrhegwyd ef gyda darlun i ddiolch iddo am ei waith. Yn y llun hefyd mae Kate Thoms, Prif Weithredwraig Menter Fachwen ag Emlyn Pritchard, y cadeirydd newydd.

**Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau**
TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*
**Sion Roberts 07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

**E. W. Pritchard**
*Trefnwyr Angladdau*
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

# LLANBERIS

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

## Llwybr diogel i'r ysgol





Mae pont droed newydd yn cael ei hadeiladu ar draws afon Goch fydd yn hwyluso a diogelu mynediad i Ysgol Dolbadarn i blant rhan orllewinol y pentref. Mae'r bont yn cysylltu Ffordd Ty Du a safle'r hen lyfrgell, ac yn fodd i'r plant a'u rhieni osgoi cerdded o'r Stryd Fawr i fyny Ffordd Capel Coch ddi-balmant.

## Pont Huws Drygist



Fel y gŵyr pawb o drigolion Llanberis bellach – a llawer i ymwelydd hefyd, mae gwaith mawr yn mynd ymlaen ar y bont dros yr afon Goch yng nghanol y pentref. Yr enw ar lafar ar y bont yw 'Huws Drygist', a hwnnw'n dyddio'n ôl i gyfnod pan oedd siop fferyllydd ar ei phwys. A thybed hefyd nad hon oedd Y Bont Lwyd yn 'O Law i Law' gan T. Rowland Hughes? Tra'n dadgymalu'r bont daeth bwa y bont wreiddiol i'r amlwg, a diolch i Dylan Cadwaladr Parry o Lanberis am y lluniau. Mae wedi cadw dyddiadur o'r gwaith sy'n mynd ymlaen yma – dyddiadur darluniadol, gyda lluniau'n cael eu tynnu'n ddyddiol i ddangos yr hyn sy'n digwydd. Cofnod gwerthfawr i'r dyfodol.

**Cais am newyddion:** Pe baech chwi, fel unigolyn/ cymdeithas/ criw neu enwad, yn hoffi cynnwys unrhyw eitem o newyddion sy'n berthnasol i'r pentref, yn yr Eco, gyrrwch ef i mi drwy alwad ffôn, llythyr neu ebost.

**Cofio 1914-1918** Cynhelir Arddangosfa, o luniau a gwybodaeth am y rhai a enwir ar Y Gofgolofn, yn y Ganolfan, rhwng 10 a 4, ar Dachwedd y 10fed a'r 11eg.

**Diolch** Dymuna Grace, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cyfarchion, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen blwydd arbennig yn 80 oed yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad** Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Edwin yn ei brofedigaeth o golli ei dad, Glyn, tad yng nghyfraith annwyl i Nicola, a thaid a ffrind gorau Megan a Katie Glyn. Priod Dilys a thad Ann a Pete a'u teuluoedd.

**Côr Dyffryn Peris** Mae'r Côr wedi cynnal cyngherddau llwyddiannus yn St. John ac Eglwys Y Drindod, Llandudno, ac yn Eglwys y Santes Fair, Betws Y Coed, yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf.

**Grwp Pentref Taclus Llanberis** Ar ddydd Sadwrn, 13eg o Hydref bydd Ffair Grefftau Leol yn cael ei chynnal yn Y Ganolfan rhwng 10.00 y bore a 4.00 y pnawn. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael gydol y diwrnod. Dewch draw i weld – a phrynu – cynnyrch crefftwyr lleol.

### Oedfaon Capel Coch

| | | |
|---|---|---|
| Hydref | | |
| 7fed | 10yb | Y Parchedig Cath Williams 5yh Parti Bythol Wyrdd |
| 14eg | 10yb a 5yh | Y Gweinidog |
| 21ain | 10yb | Y Parchedig Huw Pritchard |
| 28ain | 10.30yb | Oedfa Deulu |
| Tachwedd | | |
| 4ydd | 10yb | Mrs Nerys Griffith |
| 11eg | 10yb a 5yh | Y Gweinidog |
| 18fed | 10yb | Mr Dafydd Iwan |
| 25ain | 10.30 | Oedfa Deulu |

# CYNNWRF YN "Y CARTREF" BONTNEWYDD AGE CYMRU GWYNEDD A MÔN

Nawr bod hi'n dymor yr hydref rydym yn adnewyddu'r amserlen gweithgareddau yma yn Y Cartref. Byddwn yn ychwanegu sawl gweithgaredd difyr fel rhai ychwanegol i'r amserlen bresennol.

Rydym yn edrych ymlaen at gychwyn sesiynau Bingo ar bnawn dydd Gwener. Cewch bnawn o hwyl wrth ennill amrywiaeth o wobrau a bwyd am fargen o bris £7 am ddau gwrs a phaned!

Yn cychwyn Mis Hydref mae gennym raglen eang o siaradwyr difyr yma i'ch diddori. Bydd y sesiwn cychwynnol ar y 1af o fis Hydref gyda sgyrsiau yn cynnwys hanesion lleol, arteffactau a llawer mwy.

Mae'r Nadolig yn nesáu yn sydyn iawn, felly cofiwch archebu eich Cinio Nadolig gyda ni, boed ych chi yn archebu ar gyfer un neu ddau ohonoch neu yn archebu ar gyfer criw sylweddol! Roeddem yn brysur iawn Nadolig llynedd ac rydym yn rhagweld y byddwn yn brysurach eleni gan fod geirda'r ymwelwyr i'r caffi yn cynyddu dros y flwyddyn. Bydd Cinio Nadolig 3 cwrs ar gael am bris rhesymol o £12.50 y pen, felly archebwch ymlaen llaw i gadw lle. Byddwn yn cychwyn y Cinio Nadolig o wythnos 12 Tachwedd 2018 ymlaen!

Rydym yn awyddus iawn i dderbyn eich adborth a syniadau at y dyfodol gan ein bod bob amser yn edrych i ehangu ar y ddarpariaeth sydd gennym yma. Mae Caffi'r Cartref yn ddiweddar, er enghraifft, wedi bod yn paratoi bwyd 'take-away' ar gyfer te angladd a pharti pen-blwydd ac rydym yn parhau i edrych i mewn i sefydlu gwasanaeth Pryd yn y Cartref ar gyfer Bontnewydd, Dinas a Llanwnda.

Felly dewch draw yma i'n gweld yn Y Cartref am sgwrs a phaned unrhyw dro, mae yna groeso cynnes i bawb!

Rydym bob amser hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr i'n cynorthwyo yn Y Cartref ac felly os oes gennych ychydig oriau i'w sbario yn wythnosol beth am roi cynnig arni a dod yn wirfoddolwyr i Age Cymru Gwynedd a Môn?

Cysylltwch â Nicola Jennings ar 01286 808 732 i drafod eich anghenion, i archebu cinio, archebu lle ar y gweithgareddau, trafod cyfleon gwirfoddoli ac/neu i rannu eich syniadau!

## Pigion Byd Natur

### *Tipyn o Yrrwr!*




Thomas Herbert Parry-Williams ddwedodd mewn ysgrif ddifyr iawn o'i eiddo a ysgrifennwyd yn y flwyddyn 1927, ar gael yn y gyfrol Ysgrifau (1928; a.a. 1978) cofiwch da chwi holi amdani yn eich llyfrgell leol, mai robin y gyrrwr ydyw'r 'pryfyn distadl ond brathog... hwnnw sy'n gwanu croen gwartheg' ac yn eu gyrru 'ar garlam gwyllt hyd y cefnennau ym mis Awst, a'u cynffonnau i fyny'. Ebe'r Athro a'r Bardd o'r Rhyd-ddu:

'Wedi iddo dyfu i'w lawn faint, pryf tebyg i gacynen ydyw Robin Gyrrwr. Dan ei drwyn yn rhywle y mae ganddo swmbwl, peth tebyg i bicell fain i wanu'r croen fel y gall sugno'r gwaed. Efallai nad ydyw'r fuwch yn rhedeg yn rhuslyd ar ôl y gwaniad cyntaf, ond pan debygo hi glywed sŵn atgas adenydd Robin rywdro wedyn, yna y mae hi'n gwallgofi ac yn eisio dianc rhag 'sŵn y boen'.

Darllenais rywla, hynny dro byd yn ôl, ac rhyfeddol fel y mae pethau yn dal i gyniwair mewn cof, bod rhai ffermwyr yn gallu dynwared sŵn y pryfyn dan sylw ac yn cynhyrfu ei wartheg yn y fath fodd fel eu cael i symud profa. 'R union beth am wn i, os rydach berchen ci fferm heb fod fawr awydd symud mwy na chodi'i gynffon arno. Mae na amball gi felna onid oes! Ond gofalwch, erfyniaf arnoch, beidio â chollfarnu'r fath griadur. Yn aml, dyma'r gwarchodwr gorau un ar yr aelwyd ac yn dra aml drymedd nos yn gyfrifol, wrth iddo glywad y smicyn lleiaf ar y buarth, ddechrau ymystwrian a chyfarth, gan ddeffro pawb!


Enwau eraill, heblaw'r hen gythral o bryfyn piwis, neu ddiawl bach mewn croen, am robin gyrrwr ydyw pryfyn y gweryd (gair arall am ddaearen, eu briddell ydyw gweryd). Rhag ofn i chi feddwl mai gwartheg yn unig y mae o'n eu piwisio, gall fod yr un mor ffiaidd ei frathiadau, a hynny welwch chi tra'n prysur chwilota am leoedd addas i ddodwy, hyd nes deor o'i wyau ymhlith blewiach a chrwyn ceirw, ceffylau a bodau dynol.

Cofiaf y diweddar Brifathro, sef Mr Bennett Williams, cymeriad hoffus ac annwyl dros ben, brodor o'r Bermo, hefo dawn y gŵr cyfarwydd ganddo, yn yr Ysgol Gynradd yn Nhalsarnau, sir Feirionnydd, yn sôn am ffilmio 'The Drum' ger Llyn Cwmbychan, a hynny yn ystod mis Awst crasboeth yn y flwyddyn 1937, pryd penderfynodd bryfyn 3 milimedr ran hyn, ie! dyna chwi pwy ond fo ynte, sef robin y gyrrwr, focha hefo cynffon un o'r mulod eithaf ufudd cyn hynny a geid ar y set. Dechreuodd hwnnw ddangos nerth ei goesau, a dyna wir i chwi a wnaeth gweddill y criw mulod hefyd. Cafwyd cythraul o stampîd! Ond hyd y gwn i, ni chynhwyswyd yr olygfa honno yn y ffilm!


GWAITH COFFAOL
LLANRUG
Ffôn Gwaith
(01286) 672898
Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethy Yr Holl Ardal
Ffoniwch [redacted] ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



# TUDALEN YR IFANC

## ADDUNED MEDI NEWYDD

Stopio bwyta chips. Gwneud ymarfer corff. Glanhau'r sied. Gweld mwy o'n nheulu. Dysgu iaith arall. Mae pawb yn gyfarwydd gyda gwneud addunedau fel hyn ar droad y flwyddyn newydd ddiwedd mis Rhagfyr, a'r rheiny'n dueddol o fynd o'ch co' chi cyn i ail wythnos Ionawr ddirwyn i ben.

Felly rhaid cwestiynu, ai dyma'r cyfnod cywir i wneud newidiadau mawr i'ch arferion a'ch amserlenni? Mae'r dathlu 'Dolig wedi dod i ben a dyled ar ei ôl i rai; pwysau arholiadau'n glanio'n rhy fuan ar ysgwyddau'r bobl ifanc; dyddiau byrion, nosweithiau tywyll a diflas - dydy o ddim y sefyllfa gorau i wneud newidiadau mawrion!

Mis Medi, ar y llaw arall? Rydych wedi cael amser i ymlacio a myfyrio yn nhes yr haf; wedi cael eich ysbrydoli o wyliau dramor (neu gartref); yn gwylio eraill yn mynd ar eu hanturiaethau newid byd i brifysgol neu deithio – mae'n ddigon i wneud i chi daflu'ch hunan mewn i'r un cyffro. Ac mae'n amser gwych i wneud hynny. Gyda chlybiau chwaraeon, corau, cyrsiau i oedolion, pwyllgorau a mwy yn dueddol o ddilyn patrwm tymor ysgol, mae tymor yr hydref yn cynnig cyfleoedd di-ri i ddysgu rhywbeth newydd, neu i ail ymweld â diddordeb sydd heb gael ei ymarfer ers tro.

Mae'n gallu bod yn amser rhyfedd i bobl ifanc 18 oed, a'r disgyblion hynny a ddathlodd eu canlyniadau lefel A ychydig wythnosau yn ôl yn gorffen pennod o'u bywydau ac yn dechrau un arall drwy fynd ar eu hynt i brifysgol neu deithio.

Ond gallai fod yn amser o 'limbo' i eraill, y rhai sydd wedi penderfynu gwthio botwm 'pause' ar addysg a chymryd 'blwyddyn allan'. Dyna oedd profiad golygydd y dudalen hon nol yn 2009. Cymysgedd o deimladau; o amheuon ('oeddwn i wedi gwneud y penderfyniad cywir?') i gyffro ('dim amserlen ysgol!') a gwylio ffrindiau'n symud o'r dyffryn i bob pen y wlad yn chwerwfelys. Felly beth ddigwyddodd? Wel yr un peth ac sy'n digwydd i'r golygydd pob mis Medi; dechrau rhywbeth newydd! Dysgu Sbaeneg oedd hynny nôl yn 2009 gyda gwersi i oedolion Coleg Menai. Ers 2009 mae'r rhestr wedi cynnwys: ymuno â chôr, dysgu gweu, ymuno â chlwb hoci, ymuno â phwyllgor Gŵyl Fwyd Caernarfon, dod yn olygydd Tudalen yr Ifanc Eco'r Wyddfa, a'r llynedd, dechrau Gigs y Gilfach Ddu.

Un sy'n mynd trwy'r un profiad bron ddegawd yn ddiweddarach yw Dion Jones o Lanrug, sy'n aelod o'r band Alffa. Mae'n esbonio ei benderfyniad o gymryd blwyddyn allan a'r cyffro o wneud rhywbeth newydd;

"Penderfynais gymryd blwyddyn allan o fynd i brifysgol am fwy nag un rheswm. Yn gyntaf teimlaf fel nad ydw yn barod i fynd i astudio am 3 mlynedd arall. Gall hynny wneud efo fy niogrwydd [!]. Rheswm arall oedd y pryder wrth fynd i brifysgol, a'r cwestiwn mawr, ydy o werth yr holl bres? Felly tra dwi'n meddwl beth i wneud nesaf rwyf am weithio am flwyddyn yn y Galeri. Bydd gweithio yn Galeri yn rhoi mwy o brofiad i mi o'r byd gwaith a'n gyfle i ychwanegu mwy i'r CV.

Y rheswm olaf oedd y band, sef Alffa. Mae cerddoriaeth yn bwysig iawn i mi ac roedd y ddau ohonom yn teimlo fel ei bod hi'n hen bryd i ni ysgrifennu caneuon newydd a chreu albwm. Felly rydw i wedi cymryd blwyddyn allan er mwyn rhoi amser i 'sgwennu caneuon a chanolbwyntio ar gerddoriaeth. Rhan o hynny ydy helpu trefnu gigs gyda chriw Gigs y Gilfach Ddu. Rŵan fy mod wedi gadael yr ysgol rydw i'n fwy parod i daflu'n hun mewn i helpu trefnu'r gigs yn Nyffryn Peris a chymryd mwy o gyfrifoldebau yn y trefnu bandiau ayyb, sy'n rhywbeth newydd i mi. Rydym yn y broses o drefnu'r gig nesaf fydd rhwng 'Dolig a'r flwyddyn newydd, felly gwyliwch y gwagle!"

Os ydych chi'n berson ifanc ac eisiau bod yn rhan o drefnu gigs yn y dyffryn, e-bostiwch marged_3@hotmail.com. Bydd mwy o wybodaeth am ddatblygiadau Gigs y Gilfach Ddu yn rhifyn nesaf yr Eco.

# Ar ben arall i'r lein



*Goronwy Roberts, Llanrug. Brithyll Brown o Lyn y Dywarchen am 6.25 pwys.*



Gwyniedyn 12 pwys o'r Finiog, Afon Seiont C. Hope, Caernarfon. 19 Medi 2019

Ond oes eisiau bod yn ofalus be mae rhywun yn ddweud, neu yn bwysicach byth be mae rhywun yn ei ysgrifennu! Yn rhifyn Medi cyfeiriais y buasai'n well anghofio am yr afonydd eleni a chanolbwyntio ar y llynnoedd, wel mae canolbwyntio ar Lyn y Dywarchen wedi dod â helfa arbennig i lawer ond, heb os, pencampwr eleni yw Goronwy Roberts, Llanrug, gyda brithyll brown am 6.25 pwys. Wrth dynnu'r 'sgodyn tua'r rhwyd fe dorrodd ei enwair yn ddau, ond be di'r ots am rhyw ddamwain bach pan mae brithyll mwyaf y tymor yn gwneud ei ffordd am y badell. A dwi di gweld yr enwair newydd hefyd! – mwy o bwyll y tro nesaf Goronwy.

Mae'r Seiont hefyd i weld yn dechrau dod ati'i hun, drwy i'r tywydd droi a lefelau'r afonydd godi mae'r brithyll môr wedi gafael ar y cyfle i ddychwelyd i'w cynefinoedd o'r môr. Mae 'sgota am y 'sgodyn hyfryd yma wedi gwella yn aruthrol yn y tair blynedd ddiwethaf. 'Roeddem yn gwybod mai unwaith y buasai gwaith adfer Padarn yn dangos cynydd, fuasai natur ddim yn hir cyn ymateb drwy adennill ei cholledion. Ac felly y mae hi gyda'r brithyll môr. Mae eu cylch amser magu a mudo allan i'r môr a dychwelyd i'r afon yn llai o rhyw ddwy flynedd nac un yr eog. Eleni mae'r pysgota a safon y brithyll môr wedi bod yn arbennig ac fel mae pethau yn gweithio allan ar adegau, pan oeddwn ar ddechrau ysgrifennu'r adroddiad yma, brynhawn Mercher, 19 Medi, galwodd Cecil Hope o Gaernarfon acw i ddangos ffrwyth ei lafur ar yr afon ychydig ynghynt y prynhawn, a tipyn o ffrwyth oedd hefyd am 12 pwys. Dydw i ddim am gyfeirio at y pysgod hyfryd yma fel brithyll môr o hyn ymlaen, oherwydd eu henw lleol yw gwyniadau. Felly dyna chi wyniedyn yn de, am 12 pwys! 'Sgwn os daw rhyw damaid bach acw i flasu'r badell. Ond mae'n amlwg i bwy bydd Tarian J.V. Evans yn cael ei chyflwyno eleni

Rhai eraill sydd wedi bod wrthi a hefyd yn dal ati yw Stuart Woodward, Ceunant; John Fraser Williams, Crawia; Dr Robin Parry Llanberis; a Clifford Thomas, Felinheli ond, fel dwi'n deall methu eu cael i'r rhwyd mae o! Dal ati, mae nhw'n siŵr o ddod. Fy ymderchion i? – wel bachu un go drwm yng ngwaelod y Finiog ac mi aeth hwnnw yr un ffordd â rhai Clifford. Ond, wrth gwrs, rhaid canu corn fy hun – dwi di cael gwell hwyl arni ar Lyn Dinas gyda dau eog – well gennyf i rheini na gwyniadau!!! ond mae'r criw i gyd yn dweud mai methu dal gwyniadau ydw i, ac mae gwirionedd yn hynny eleni.

Mae cynigion Cyfoeth Naturiol Cymru ers peth amser yn ceisio cyflwyno deddfau a fuasai'n rhoi rhwystredigaethau afresymol ar ddull o bysgota eog a gwyniadau. 'Rwyf wedi cyfeirio digon am hyn dros y flwyddyn ddiwethaf a felly does dim bwriad gennyf ailadrodd, ond fel hyn mae hi ar y funud - 'Roedd y cais wedi ei gyfeirio am benderfyniad gan y Llywodraeth yng Nghaerdydd, cyfrifoldeb y gweinidog Lesley Griffiths oedd i roi ei sylwadau ar y cyfan i aelodau'r cynulliad ac i rhain wneud penderfyniad, digon syml, cyflwyno neu ddim. Mae gwrthwynebiadau chwyrn drwy Gymru yn erbyn yr holl beth, ac yn fwy na hyn mae llawer o sefydliadau gweinyddol y wlad wedi mynegi eu pryder ar sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweinyddu, felly mae Lesley wedi cymryd cam diogel a gwneud Pontius Pilate, golchi ei dwylo o'r cyfan a chyferio'r holl fater at Arolygaeth Gynllunio, a nhw fydd yn gyfrifol am benderfynu. Fel un oedd wedi anfon sylwadau ar ran y Gymdeithas, cefais lythyr o'r Arolygaeth yn dweud os oeddwn eisiau presenoli fy hun fod yn rhaid i mi ac eraill nodi hyn erbyn 19 Medi. Yr unig broblem oedd, nid oes dyddiad na lleoliad wedi eu dewis i'r cyfarfod. 'Rwyf wedi gofyn am fwy o wybodaeth ar hyn – yr ateb oedd y cawn y wybodaeth pan mae nhw wedi penderfynu pa bryd a ble. Ydi hyn yn gwneud synnwyr i chi, tybed?

Braidd yn gynnar i gyfeirio at y Nadolig efallai, ond cyn belled ac mae cyflenwyr nwyddau at yr ŵyl yn y cwestiwn maent wedi bod wrthi ers cryn amser er mwyn sicrhau y bydd popeth fydd angen ar gael. Cyn belled a mae bwyd yn y cwestiwn y pethau pwysicaf fydd y tyrcwns, gwyddau neu ffowlyn, hefyd y dyddiau yma yn boblogaidd dros ben cyn dechrau'r prif bryd yw rhyw ychydig o eog wedi ei fygu. Mae'n anodd ofnadwy cael gafael mewn eog o'n afonydd lleol sydd wedi fygu, a'r sefyllfa ydi nad oes digon o eogiad gwyllt ar gael i fodloni'r galw. Felly be sydd ar gael yn ein archfarchnadoedd yw eog sydd wedi ei fagu. 'Rwyf wedi crybwyll o'r blaen am y ffermydd môr ble mae'r eogiad yma'n cael eu magu at y pwrpas o'i mygu. Mae cryn bryder am sut mae llawer o'r ffermydd yma yn cael eu rheoli a'u gweithredu pan mae rhyw bla neu salwch yn effeithio eu stoc. Un o'r problemau mwyaf sy'n amharu ar y magu yw pla o lau môr sy'n bwyta'r eogiaid yn fyw. Un o'r achosion diweddaraf yw fferm ar Loch Roag, Ynys Lewis. Wna i ddim egluro ymhellach ar hyn gan fod safle we www.salmon-trout.org/2018/09/loch-roag-sea-lice/ yn amlinellu'r broblem yn llawer gwell na allwn i. Ond cofiwch chi am hyn, y rhai sy'n bwyta'r stwff. (Diolch o galon i Dewi Jones am ddod a hyn i fy sylw)

Clywaf rai yn dweud "Mi wyt tithau'n hoff o'r hen eog wedi ei gochi," digon gwir, ond drwy ystyried be sy'n mynd ymlaen yn y ffermydd pysgod 'ma, dyna pam rwy'n mygu eog fy hun. Felly da chi'n gweld mae mwy na'r hen badell 'na ar waith acw, ac mae hynny, wrth gwrs, yn dibynnu'n hollol os byddaf wedi bod mor ffodus a dal rhyw un neu ddau. Ond beth bynnag mae;n werth ei flasu, fel y gall llawer dystio pan yn cael rhyw fymryn gennyf pan fyddaf wedi dychwelyd o'r Cwt Mwg yn Dulas.

Oes na bosibilrwydd tybed cynyddu'r stoc lleol fel y buasai'n bosib cynnig 'Eog a torgoch y Wyddfa' wedi ei fygu? Os byddaf ddigon o sgotwr i gael un arall cyn diwedd y tymor mi drefnaf noson o flasu ym Melin y Cim – bydd rhaid, wrth gwrs, i chwi ddod â whisgi eich hunain, un a tipyn o flas mawn arno fuasai'n dderbyniol!

Yndi, mae'n dipyn o siom na fuasai llawer mwy o sylw yn cael ei roi i'r posibiliadau sydd wrth law yn yr hen fro yma i hybu a manteisio ar gynnyrch pysgodfaol lleol. 'Rydym fel cymdeithas wedi bod ers degawdau yn erfyn ar yr awdurdodau i'n cynorthwyo yn y mae yma – ond clust fyddar sydd i'w gael. Ysgwn i a wnaiff rhai o'n gwleidyddion lleol sylweddoli'r posibilrwydd ar cyfleon sydd dan ein traed – peidiwch a dal eich gwynt.

Byddaf yn cyfeirio yn rhifyn Tachwedd at y sylw sy'n cael ei roi i'r Torgoch yn yr Alban, mae fy niolch i Dafydd o'r Glasgoed am y wybodaeth.

A dyna ni unwaith eto.

Huw Price Hughes

## Un funud fach ...

**TOCYN ANRHEG**

Newyddion da ydi'r Efengyl: y newyddion da am gariad Duw tuag atom. A rhodd ydi'r Efengyl: rhodd ydi'r cariad a ddangosodd Duw tuag atom yn ei Fab Iesu. Rhodd Duw i ni ydi Iesu Grist ei hun: rhodd heb ei ail; rhodd sy'n para.

Mae tocynnau anrheg yn rhoddion poblogaidd a defnyddiol. Ond cwbl ddiwerth erbyn hyn ydi'r tocynnau anrheg Woolworth sydd gen i. Unwaith yr aeth y cwmni hwnnw i'r wal roedd y tocynnau a oedd heb eu gwario yn dda i ddim. Mae tranc llawer cwmni arall dros y blynyddoedd diwethaf yn wers i bawb ohonom i geisio defnyddio pob tocyn anrheg mor fuan â phosib gan na wyddom pa gwmni fydd y nesaf i ddiflannu.

Mae'r tocynnau Woolworth yn f'atgoffa o'r golled a gefais o fethu â'u gwario. Ychydig bunnoedd yn unig oedd gwerth y tocynnau, ac o gofio hynny a'r ffaith fod cannoedd wedi colli eu swyddi gyda diflaniad y siopau mwy o siom nag o golled a gefais i mewn gwirionedd. Ac wrth edrych ar y tocynnau, dydw i yn bendant ddim yn teimlo'n ddig nac yn teimlo i mi gael fy nhwyllo mewn unrhyw ffordd. Mi gefais, mae'n debyg, ddigon o gyfle i ddefnyddio'r tocynnau cyn i ddrysau Woolworth gau.

Rwy'n deall yn iawn y gall tocynnau anrheg fynd yn ddiwerth pan fo'r cwmni'n chwalu. Ond mi allan nhw fynd yn ddiwerth hefyd os na ddefnyddiwch nhw cyn dyddiad penodol. A fedraf fi ddim gweld bod hynny'n deg o gwbl. Mae'r cwmni wedi cael eich arian (neu arian y sawl a brynodd y tocyn anrheg i chi), ac felly pa gyfiawnhad sydd dros ddweud fod y tocyn yn ddiwerth ar ôl cyfnod penodol? Cymryd yr arian a dweud na chewch ddim amdano: onid lladrad yw peth felly?

Rhodd wahanol iawn ydi'r Efengyl. Ydi, mae Duw yn galw arnom i gredu'r Efengyl a derbyn Iesu Grist yn Arglwydd a Gwaredwr mor fuan â phosibl: heddiw fyddai orau. Pa bryd bynnag y clywn ni'r newyddion da ac y deallwn fod Iesu Grist wedi byw a marw ac atgyfodi er mwyn i ni gael y bywyd tragwyddol, dyna'r amser i gredu. Gorau oll os digwydd hynny yn gynnar a ninnau'n ifanc gan y bydd gennym wedyn oes gyfan i ddilyn Iesu a thystio iddo. Ond diolch am hynny, does yna ddim terfyn amser: mae cynnig yr Efengyl o faddeuant a bywyd yn aros. Ac er nad yw Duw yn ein hannog i oedi, mae digon o hanesion i'w cael am bobl yn ymateb i'r Efengyl ac yn cofleidio Iesu Grist flynyddoedd wedi iddyn nhw ei chlywed gyntaf, a hyd yn oed ar unfed awr ar ddeg eu bywydau.

Ie, rhodd ydi'r Efengyl; a rhodd wahanol iawn i unrhyw docyn anrheg.

JOHN PRITCHARD

## CYNLLUN EFE

### Cyfarfod Comisiynu Gweithiwr Newydd

Fel y nodwyd yn Eco'r mis diwethaf, penodwyd Susan Williams, Ceunant, Llanrug yn weithiwr newydd Cynllun Efe dros yr haf. Ac fel ei rhagflaenydd Catrin Hampton, bydd Susan hefyd yn gwasanaethu eglwys Caersalem, Caernarfon a Scripture Union Cymru sy'n cydweithio â Chynllun Efe i gynnal y swydd lawn amser hon o 'Weithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd'.

Dechreuodd Susan ei swydd newydd ym mis Medi, ac mae eisoes wedi ymweld â'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd y fro ac Ysgol Brynrefail. Mae hefyd wedi dechrau trefnu i barhau gwasanaeth Cynllun Efe i'r capeli a'r eglwysi lleol.

Cynhelir Cyfarfod Comisiynu Susan i'w swydd newydd yng Nghanolfan y Capel, Caeathro, am 7.00 o'r gloch, nos Iau, Hydref 18. Mae croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb yn y gwaith i'r cyfarfod hwn. Bydd cyfle i glywed rhagor am waith Cynllun Efe gan mai'r cyfarfod hwn fydd ein Cyfarfod Blynyddol hefyd.

Erbyn hyn, mae Cynllun Efe wedi bod yn cynnal Gweithiwr Cristnogol ym mhentrefi dalgylch Eco'r Wyddfa ers deng mlynedd. Bu Andrew Settatree yn y swydd o fis Hydref 2008 hyd ddiwedd Chwefror 2017. Dros y flwyddyn ddiwethaf cawsom wasanaeth Catrin Hampton. Susan, felly, yw ein trydydd gweithiwr ac yr ydym yn edrych ymlaen at gydweithio â hi. Mae Susan yn gwbl gyfarwydd â'r gwaith gan ei bod wedi gwasanaethu Cynllun Efe o'r cychwyn fel un o ymddiriedolwyr yr elusen. Hi hefyd oedd ysgrifennydd pwyllgor Efe. Ond pan ddaeth y swydd yn wag ddechrau'r haf, ymddiswyddodd Susan ar unwaith o'r ddau gyfrifoldeb er mwyn medru cyflwyno cais am y swydd. Bu raid iddi gyflwyno cais a mynd trwy gyfweliad fel y byddai disgwyl i unrhyw ymgeisydd ei wneud. Wedi dilyn y broses ffurfiol, yr oeddem yn falch iawn o fedru cynnig y swydd iddi.

Dymunwn yn dda i Susan, ac edrychwn ymlaen at gael eich croesawu i'r Cyfarfod Comisiynu nos Iau, Hydref 18.




DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
••• 01286 673535 •••
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

### *Cyngor Cymuned Llanddeiniolen*

**Crynodeb o Gyfarfod y 3ydd Gorffennaf 2018**

Cyfethol

Braint oedd croesawu a chyfethol Lowri Hughes a fydd yn cynrychioli ardal Dinorwig ar y cyngor. Mae Lowri yn enedigol o gyffiniau Dinbych ac wedi ymgartrefu gyda'i gŵr a teulu ifanc yn Parc.

Safle Treftadaeth y Byd.

Braint oedd croesawu Mr. Roland Evans, Uwch Reolwr Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod.

Cafwyd cyflwyniad arbenig ar gais am Safle Treftadaeth y Byd i'r chwareli. Mae chwareli a llechi yn nodwedd bwysig o Ogledd Cymru a'r ardal. Y gobaith yw cyflwyno y cais yma hwyrach ymlaen y flwyddyn hon.

Drwy dderbyn y Statws bydd cyfle i dathlu ac adfywio bywyd y chwareli a'r ardaloedd hynny megis Dinorwig a Deiniolen sydd wedi dioddef yn sgil cau y chwareli, ac wrth gwrs bydd yn gyfle arbenig fydd yn cynyddu economi yr ardal. Ceir mwy o fanylion ar gwefan Llechi.cymru

Materion yn codi o gofnodion Mehefin

Parcio Bro Elidir, Dinorwig – Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd, gan fod y lon yn ffordd cyhoeddus, mae yn agored i bawb ei defnyddio. Nid yw yn bosib rhoi arwydd "Preswylwyr yn Unig" gan na fyddai sail cyfreithiol iddo, ac yn beryg o greu cynsail. Yr unig opsiwn sydd ar gael i leihau defnydd o lecynnau parcio gan y rhai sydd ddim yn drigolion ar y stad yw cyflwyno cynllun parcio preswylwyr, sydd wrth gwrs â chôst i drigolion y stad am £50 y flwyddyn. Yn y cyfamser, mae Cyngor Gwynedd o amgylch yr ardal yn ystod yr haf yn cadw llygaid ar barcio.

Arwydd Llwybr Carreg y Gath – Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau ac ymddiheuriad fod yr arwydd cau y llwybr bellach wedi gywiro, ac am geisio fod mwy gofalus o hyn allan i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto.

Clybiau Ieuenctid – Derbyniwyd llythyr gan Y Cynghorydd Craig ab Iago yn ymddiheuro am oedi yn ymateb, ac yn cynnig dod i drafod y datblygiadau diweddara. Fodd bynnag, mae trefniadau wedi eu gwneud bellach a byddwn yn croesawu rheolwr Clybiau ieuenctid i gyfarfod mis Medi yn ei le.

Biniau Baw Cwn – Derbyniwyd llythyr gan Steffan Jones yn datgan fod y biniau yn cael eu gwagio yn wythnosol, a bod y Bin Baw ci ger Y Caban ar restr i'w symud. Y clerc i gysylltu yn gofyn pa ddiwrnod o'r wythnos mae'r casgliad a beth sydd yn dod o bin ychwanegol ger Fferm Garnedd.

Gwylanod, Penisarwaun – Derbyniwyd llythyr gan CCG yn cynghori unrhyw denant i gysylltu a nhw i'w hysbysu os oes unrhyw aderyn wedi bod yn nythu yn y simdde, a hynny pan fydd y nyth wedi ei wagio.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Coed Bolyn Bach, Bethel– Trosi adeilad allanol presennol yn uned wyliau hunan gynhaliol.

Maes y Ffynnon, Bethel – Codi 7 ty yn cynnwys 2 dy fforddiadwy ynghyd a mynedfeydd newydd

1 Carfan, Pentir Estyniad a newidiadau i'r uned wy;liau a ganiatawyd dan gais gwreiddiol

Capel Sardis – Addasu Capel segur i ddau uned wyliau ynghyd a chreu llecynnau parcio b.

Ffynnon Carreg y Gath

Dywedwyd fod giât wedi ei rhoi yno tua 5 mlynedd yn ôl. Gan fod pobl yn gadael y giât yn agored, rhoddwyd clo arni.

Penderfynwyd bod rhaid tynnu y clo gan fod yn iawn i bobl gael mynediad i'r ffynnon. Bellach nid yw'r dŵr yn rhedeg yno. Yn dilyn ymweld a'r ffynnon, a siarad gyda'r perchnogion, mae angen torri y tyfiant ar y llwybr tuag at y ffynnon. Mae yn amhosib dweud os mai'r tywydd sych sydd yn effeithio llifiad y dŵr yno, felly disgwyl ac ond trin y llwybr yno ar hyn o bryd. Y clerc i gysylltu i drefnu hyn.

Clybiau Ieuenctid

Esboniodd y Cynghorydd Elfed Williams fod y cabinet wedi rhyddhau cronfa o £50,000 er mwyn cynorthwyo y Cynghorau Cymuned hynny sydd heb eu praesept i Glybiau Ieuenctid. Ond yn dymuno gweld y clybiau ieuenctid yn parhau. Mae Elfed yn ceisio sicrhau, trwy gymorth grantiau, i gadw y clwb ar agor. Penderfynwyd cysylltu a rhoi cais am ganran ar ran y Cyngor i'r gronfa yma, er mwyn gallu cefnogi i gadw y clwb yn Deiniolen ar agored.

O gwmpas y Bwrdd

Cronfa Diffriblydd Deiniolen – Mae yna gronfa yn agored ac yn derbyn rhoddion er mwyn cael diffriblydd i'r pentref. Mae Emma Chappell a Elfed yn cydweithio gyda Merched y Wawr. Byddant yn ddiolchgar iawn am unrhyw gyfraniad tuag ato.

Mynwent Macpela – Dywedodd Elfed mai unwaith y mis mae'r gwair yn y fynwent yn cael ei dorri, a Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am hynny.

Bethel – Llwybr tu cefn i Capel Bethel angen toriad gan fod gordyfiant yno.

Gongla Priffyrdd - Tre Gof , Hen Eglwys, a Gwaelod Allt Sam – y clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd gan ei bod yn amhosib gweld wrth ddod allan i'r briffordd.

Gwteri – Mae gwteri yr ardal wedi eu cau gyda rwbal a baw, ac yn dilyn y tywydd sych, bydd mwy yn hel. Felly angen cysylltu a'r cyngor i'w llnau cyn y glaw ac i atal peryg o lifogydd.

Allt Ddu, Dinorwig -Mae'n ymddangos fod yr ardal yn cael ei adnabod bellach fel "Bus Turning Point" yn hytrach na "Allt Ddu". Y clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd gyda cais am arwydd "Allt Ddu".







Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk
The ROYAL VICTORIA HOTEL Snowdonia

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar yr 21ain Awst 2018

Tacluso Pentrefi

Cafwyd gyflwyniad gan Daniel Griffith, Swyddog Gwynedd i Cadw Cymru'n Daclus ar sut gallai'r mudiad helpu'r Cyngor Cymuned gyda gwahanol ymgyrchoeddad a mawr obeithir y gellir cydweithio yn y dyfodol.

Gostwng Cyflymder traffig

Adroddwyd fod y Cyngor wedi bod mewn cysylltiad a Chyngor Gwynedd nifer o weithiau i geisio gostwng y cyflymder o 40 m.y.a. i 30 m.y.a. ar y ffordd allan o Lanrug tuag at Gaernarfon. Yn anffodus mae Cyngor Gwynedd wedi gwrthod y cais. Penderfynwyd i gysylltu a Chyngor Gwynedd i ofyn os buasai swyddog o'r adran yn dod gerbron y Cyngor i egluro'r drefn gan roi rhesymau pam na ellir ei ostwng.

Llwybrau Cyhoeddus

Adroddwyd fod cais wedi mynd i Gyngor Gwynedd i gofrestru 4 llwybr ers dros flwyddyn bellach a'r unig ymateb a dderbyniwyd ydi fod yr adran yn brysur iawn. Penderfynwyd i gysylltu a'r adran unwaith eto ac i gysylltu a'r Prif Weithredwr i leisio anfodlonrwydd ar yr oedi.

Clwb Ieuenctid

Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd angen gwybod beth mae'r Cyngor Cymuned yn ei chwilio amdano oddi fewn i drefniadau sefydlu'r clwb a fod angen gwneud cais am arian o'r Gronfa bontio. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd am arian i dalu'r cost am ddwy noson yr wythnos.

Elusen 'Llanrug Poor House'.

Trafodwyd nifer o opsiynau ar sut gellir dosbarthu'r arian ac yna cau'r elusen i lawr gan nad oes incwm ar gael i'r elusen erbyn hyn. Penderfynwyd trefnu cyfarfod a Phrifathrawes yr Ysgol Gynradd i drafod syniadau i roi cymorth i deuluoedd gyda phlant.

Y Fynwent

Adroddwyd fod y pwyllgor Cyllid wedi adolygu'r gyllideb ac yn sgil hyn, roedd yn bosib cynyddu'r gyllideb ar gyfer y fynwent i alluogi'r gwaith ar y llwybrau gael ei wneud. Adroddwyd fod 3 dyfynbris wedi ei dderbyn am wneud gwaith o lefelu a tharmacio'r llwybrau. Penderfynwyd derbyn y dyfynbris isaf ond nodwyd fod angen chwynladdwr ar y llwybrau cyn dechrau'r gwaith. Mae'r contractwr sy'n torri gwair wedi derbyn y gwaith yma.

Ymgyrch i bwrcasu diffibriliwr

Penderfynwyd cychwyn ymgyrch i godi arian tuag at yr apêl ac i gysylltu a busnesau lleol i'w hysbysu o'r apêl ac o geisio cyfraniadau

Taliadau i Aelodau o'r Cyngor.

Adroddwyd fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi ei gwneud yn fandadol i'r Cyngor dalu costau o £150 bob blwyddyn i bob aelod a bod hyn eisoes wedi ei gyllidebu amdano. Fodd bynnag mae gan y Cyngor yr hawl i dalu swm o hyd at £500 y flwyddyn ar gyfer Cadeirydd y Cyngor a Chadeiryddion Pwyllgorau. Penderfynwyd i dalu £100 i Gadeirydd y Cyngor a £50 yr un i gadeiryddion y pedwar Is-bwyllgor.

Bocsys halen melyn ar gyfer gaeaf 2018.

Adroddwyd ar drefniadau llenwi bocsys halen a weithredwyd yn ystod gaeaf 2017/2018. Nodwyd mai'r drefn oedd pan oedd angen llenwi bocs melyn, i e-bostio'r cais i Gyngor Gwynedd. Yn anffodus ni fyddai'r Cyngor yn cael cadarnhad fod y bocsys wedi cael eu llenwi na pa bryd y cafodd ei lenwi. Roedd yr ansicrwydd yma yn achosi i'r clerc dderbyn galwadau gan bobl yn cwyno am nad oeddynt wedi eu llenwi. Cwestiynau nad oedd yn bosib i'r Cyngor Cymuned eu hateb. Ar gyfer gaeaf 2018 / 2019 argymhellwyd y dylai'r Cyngor Cymuned gymryd drosodd y broses i gyd drwy fod yn gyfrifol am bwrcasu halen, llenwi'r bocsys a fyddai'n golygu fod rheolaeth lawn gennym o'r broses. Yn ogystal, dylid ystyried cyd weithio gyda Cynghorau Cymuned cyfagos fel y gellir elwa o fanteision economaidd maint.

Ceisiadau Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadu canlynol.

Estyniad a newidiadau - Ty'n Winllan, Lon Groes, Llanrug.

Porth newydd - Ysgubor Fawr, Tyddyn Cae, Pontrug.


HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD
CWÔT DI DA
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd. LLANRUG, Caernarfon LL55 4AG
Ebost- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR ŴYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574


Premier
Y Storfa Premier Llanrug
Sgwar Llanrug
01286-673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost
Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol- Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS





FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy
www.fframia.com

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS GORFFENNAF 2018:
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fercher y 18fed o Orffennaf, 2018 am7.00 y.h.
PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:
Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Nicola Brown, Iwan Harding, Bethan Holding, Aneuryn Jones, Heather Lyn Jones, Kevin Morris Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.
Ward Peris: Iola Owen, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
Ymddiheuriadau: Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Gwenda Roberts.
CADARNHAU COFNODION:
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher 13 Mehefin, 2018 fel rhai cywir.
Cadarnhawyd hefyd gofnodion cyfarfod arbennig y 6ed o Orffennaf, 2018.
MATERION YN CODI O'R COFNODION:
Parcio a Cae'r Ddôl:
Chafwyd dim ymateb i'r llythyr a anfonwyd at Gyngor Gwynedd (CG). Mae'r parcio'n dal yn rhad ac am ddim yn maes parcio rhwng y Glyn a'r llyn a thyllau mawr yno o hyd. Soniwyd eto am barcio peryglus tu draw i'r ddwy linell felen uwchben gwesty Fictoria ac am barcio anghyfreithlon ger Capel Jerusalem lle mae'n amhosib yn aml defnyddio'r llwybr troed. Croesawyd y ffaith bod un ras fawr yn ddiweddar ar anogaeth CG wedi gosod arwyddion 'Dim Parcio Cystadleuwyr' ar fynedfeydd i Maes Padarn a Dôl Elidir. Roedd hwn yn un o'r materion a godwyd yn ein cyfarfod â swyddogion CG. Mewn llythyr at Y Ganolfan oddi wrth CG nodwyd fod Cae'r Ddôl wedi ei archwilio cyn ac wedi ras 'Slateman' a'i fod mewn cyflwr boddhaol. Nodwyd hefyd yn y llythyr hwnnw bod nifer o ddigwyddiadau oedd yn arfer cael eu cynnal ar y cae wedi eu symud i lecynnau eraill o fewn Parc Padarn.
Serch hynny soniwyd bod rhai tyllau yn Nghae'r Ddôl oedd wedi bod yn beryglus adeg mabolgampau'r ysgol, ac roedd cwynion wedi bod gan ddyfarnwr pêl-droed am gyflwr y cae. Awgrymwyd gan CG y dylai unrhyw gwyn felly gael ei chyfeirio'n syth at Reolwr Parc Padarn.
Gofynnwyd i'r Clerc anfon gair at CG i nodi y byddai gan y Cyngor a'r Ganolfan, ynghyd o bosib â'r Ysgol, ddiddordeb mewn rheoli Cae'r Ddôl yn y dyfodol ac y dylai hynny gael ei ystyried pan fydd CG yn ystyried dyfodol Parc Padarn a thiroedd eraill y Cyngor y flwyddyn nesaf.
MATERION ERAILL:
1. Cyfeillion Dementia:
Cafwyd gwybodaeth gan NB fod ymgyrch ar y gweill i chwilio am bobl i fod yn 'gyfaill/gyfeillion' i bobl â dementia. Soniodd am yr ymdrech i geisio cynorthwyo a gwella bywyd pobl oedd yn dioddef trwy gael gwirfoddolwyr i gysylltu â nhw. Mae'r manylion ganddi.
2. Adolygu'r Rheolau Sefydlog a'r Rheolau Ariannol:
Adolygwyd y Rheolau Sefydlog a'r Rheolau Ariannol ar ôl i'r Clerc anfon copi electronig i bawb.
3. Profedigaeth:
Cyfeiriwyd at farwolaeth Richard Jones a oedd wedi gweithio am flynyddoedd i'r Cyngor hwn. Cydymdeimlwyd â'i deulu.
4. Enw Tai:
Mynegwyd pryder ynglŷn â Quarry View fel enw ar y tai newydd ger Ffordd Tŷ Du. Penderfynwyd cysylltu â CG a'r datblygwyr.
CYNLLUNIO:
• C18/0569/15/LL - Creu mynedfa newydd ar gyfer cerbydau - Llety'r Crwydryn, Llanberis. LL55 4EL - dim sylw.
• C18/0609/15/LL - Codi tŷ un llawr newydd - tir ger Ffordd Tŷ Du, Llanberis. LL55 4HD - anhapus oherwydd gor ddatblygu, trafnidiaeth.
• C18/0621/15/LL - Estyniad un llawr cefn - 5 Rhes Minafon, Llanberis. LL55 4SL - Dim sylw.
GOHEBIAETH:
1. Cyngor Gwynedd:
a) Bwriad i gau'r Stryd Fawr nos Iau 19/07/18 ar gyfer Ras y Plant (Ras yr Wyddfa) ac ar adegau arbennig dydd Sadwrn 21/07/18 ar gyfer Ras yr Wyddfa.
b) Bwriad i gau'r Stryd Fawr a Maes Padarn ar ddydd Sadwrn 28/07/18 ar gyfer Carnifal Llanberis.
2. Bryn Lloyd Roberts:
Am sefydlu cangen Curiad Calon Lleol / Local Heartbeat gyda chefnogaeth yr elusen 'Cariad'. Penderfynwyd ei wahodd i gyfarfod o'r Cyngor i egluro beth sydd ar y gweill.
3. Gwenda Roberts:
Llythyr ymddiswyddiad gan ei bod yn symud i fyw a gadael y plwyf. Derbyniwyd ei hymddiswyddiad, gresynwyd ei bod yn gadael a dymunwyd yn dda iddi.
4. Heddlu Gogledd Cymru / Siwan Humphreys:
Ymateb yn ddiolchgar i gynnig y Cyngor am gymorth ariannol tuag at weithgarwch haf i blant a phobl ifanc yn Llanberis. Dim manylion eto ynglŷn â'r gweithgarwch.
5. Ysgrifennydd Y Ganolfan:
Nodyn yn dweud bod CADW wedi cau y llwybr answyddogol i'r Castell, fel mai un fynedfa yn unig sydd yna bellach. Bydd gwair yn cael ei dorri hefyd yn ystod yr haf. Mae KJ hefyd yn obeithiol y bydd arddangosfa a phrosiect ar y cyd rhwng Mynydd Gwefru ac Ysgol Dolbadarn wrth i'r castell gyrraedd ei ben-blwydd yn wyth cant oed yn 2020. Ychwanegodd fod Gwesty Fictoria hefyd yn awyddus i ail agor y llwybr gwreiddiol o erddi'r gwesty i'r castell.
6. CG - Bethan Hughes:
Ebost yn cydnabod derbyn llythyr ynglŷn â'r toiledau a nodi iddo gael ei anfon ymlaen i'r swyddogion perthnasol. Hyd yma chafwyd dim ymateb.
7. CG - Clwb Ieuenctid:
Llythyr yn nodi fod CG yn bwriadu dechrau gwasanaeth ieuenctid newydd, ond nid clybiau traddodiadol. Mae'r llythyr yn holi a oes gan y Cyngor hwn ddiddordeb mewn cynnal math o wasanaeth ieuenctid yn y pentref. Cafwyd trafodaeth hir ac roedd cryn anghytuno ynglŷn â'r hyn a allai'r Cyngor ei gynnig. Penderfynwyd i'r aelodau holi dros yr haf beth fyddai'r bobl ieuanc yn hoffi ei weld ar eu cyfer gan ystyried y mater eto yn mis Medi. Awgrymwyd mai ychydig oedd yn mynychu'r Clwb oedd yn bodoli ac efallai mai digwyddiad neu ddau misol fyddai'r ateb.
8. Cyfeillion Cae'r Ddôl:
Ebost yn nodi bod y rhodd ariannol i'r Cyfeillion wedi ei ddefnyddio i godi clawdd pileri (llechi) ar y ddôl. Lluniau hefyd yn dangos yr hyn a gyflawnwyd. Cytunwyd fod hwn yn waith ardderchog gan griw brwd o wirfoddolwyr ac yn ddefnydd da o arian cyhoeddus. Roedd y Cyfeillion yn diolch yn ddiffuant am y gefnogaeth.
9. Llywodraeth Cymru/CG - Gofal Plant:
Nodyn a posteri ynglŷn â chynnig y Llywodraeth o ofal plant am 30 awr yr wythnos i riant sy'n gweithio 16 awr neu fwy.
10. APCE:
Dyddiadau ar gyfer nosweithiau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn mis Hydref eleni. Dyddiad a Lleoliad - Plas y Brenin 6.30 - 8.30 nos Lun 08/10/2018.
11. NationalGrid:
Copi diweddaraf o Newyddion y Prosiect (Cysylltiad gogledd Cymru).
12. Llywodraeth Cymru:
Nodyn yn dweud bod disgwyl i awdurdodau lleol wella'r ddarpariaeth toiledau cyhoeddus. [Eironig a dweud y lleiaf].
13. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn:
Ymgynghoriad ar a) Cyfleusterau Llety i Dwristiaid a b) Cymysgedd Tai
14. Cais am gymorth:
Gan Ciaran Ellis sydd yn mynd i Sbaen ar gwrs Sgiliau Syrcas ac yn gobeithio dod yn ôl wedyn i gyflwyno yr hyn a ddysgodd i ieuenctid yn Y Festri. Penderfynwyd cynnig £300 yn unol a'r hyn a roddwyd i ieuenctid eraill o'r pentref yn y gorffennol.

# WAUNFAWR Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

**Ysgol Waunfawr**

**Hydref 2018** Rydym yn dymuno'n dda i'r 19 cyn ddisgybl sydd wedi dechrau yn Ysgol Uwchradd Brynrefail ac Ysgol Friars.

**Plant Newydd a Staff** Estynnwn groeso arbennig i'r deuddeg o blant y dosbarth Meithrin. Maent wedi ymgartrefu'n hapus yn ein plith ac yn blant da iawn.

Estynnwn hefyd groeso cynnes iawn i Miss Alwenna Griffith yn athrawes yn nosbarth Moel Hebog.

**Diwrnod Roald Dahl** Dathlwyd Diwrnod Roald Dahl ddydd Iau, Medi y 13eg, ac roedd hi'n hyfryd gweld y plant wedi gwisgo fel cymeriadau o'i lyfrau.

**Capteiniaid y tai** Etholwyd y canlynol o flwyddyn 6 yn gapteiniaid i'r timau gogyfer â'r flwyddyn i ddod. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Capteiniaid Eilio – Osian Cai a Mari Rhun

Capteiniaid Cwellyn – Cai a Cadi

Capteiniaid Gwyrfai – Aled Wyn a Seren

**Y Cynghorau Ysgol** Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol am gael eu hethol ar y cynghorau isod:

| Cyngor Ysgol | Cyngor Eco | Siarter Iaith |
|---|---|---|
| Bl 3 Mari a Jac | Erin a Ceiri | Ena a Tomos |
| Bl 4 Abi a Daniel | Alaw a Shay | Llio a Iago |
| Bl 5 Harri a Suzy | Gruff a Mirain | Aron a Cadi Lois |
| Bl 6 Martha a Noa | Cai a Seren | Osian Cai a Cadi |

**Gwersi Nofio / Thenis a Gymnasteg** Bydd y gwersi yn ail gychwyn ddydd Mawrth, Hydref yr 2il, i ddisgyblon blwyddyn 3i 6.Bydd gwersi nofio blwyddyn 2 yn ail gychwyn ddydd Mercher, Hydref y 3ydd.

**Ailgylchu dillad**

Diolch i bawb am gefnogi yr ymgyrch ailgylchu dillad. Derbyniodd yr ysgol tua £150.00 gan yr Antur dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Noson Ddarllen i Rieni y Cyfnod Sylfaen** Bwriedir cynnal Noson Ddarllen Tric a Chlic i rieni y Cyfnod Sylfaen ar ôl yr hanner tymor nos Fawrth Tachwedd y 6ed. Bydd mwy o fanylion i ddilyn.

**Gweithgareddau Hybu Sgiliau Beicio** Dros y chwech wythnos nesaf bydd disgyblion blwyddyn 1 i flwyddyn 6 yn derbyn hyfforddiant beicio i ddatblygu sgiliau i fod yn feicwyr hyderus a diogel.

**Cyfrif Trydar yr ysgol**

•Cofiwch hefyd ddilyn digwyddiadau yr ysgol ar ein cyfrif 'Trydar' (Twitter) @ysgolwaunfawr Bydd yr athrawon dosbarth yn anfon lluniau a gwybodaeth yn wythnosol, fel eich bod yn cael blas o'r gweithgareddau a ddigwyddodd yn y dosbarth dros yr wythnos.

**Dyddiadau i'w cadw mewn cof ;**

•Cynhelir Nosweithiau Rhieni blwyddyn Meithrin i flwyddyn 6 cyn yr hanner tymor.

•Ddydd Sadwrn, Hydref yr 27ain, cynhelir Ras Eryri. Byddwn angen gwirfoddolwyr i rannu diod a bisgedi ar y diwrnod. Mwy o fanylion i ddilyn.

•Ni fydd ysgol i'r plant ddydd Llun, Tachwedd y 19eg, gan fod diwrnod hyfforddiant i'r athrawon.

**Clwb 300** Enillwyr y Clwb am fis Gorffennaf oedd: £30: Pearl Williams, Parc; £20: Gareth Jones, Glyn Ceris; £10: Raymond Edwards, Felin y Wig.

Enillwyr y Clwb 300 am fis Awst oedd: £30: Cadi Jones, Nant; £20: Mererid Llwyd, Cae Rhos; £10: Nan Huws Roberts, Madryn, Erw Wen, Caeathro.

Ymddiheuriad i Bethan Beech, Bryn Afon, am ei galw yn Bethan Green yn rhifyn mis Medi o'r Eco.

**Da Iawn Chi!**

**Llongyfarchiadau** i Maredd Ynyr, Dolwar Fach, ar ennill Gradd Anrhydedd dosbarth cyntaf yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd. Dwy Fared o'r Waun wedi cyflawni'r un gamp. Rhywbeth yn yr enw a rhywbeth yn yr aer mae'n rhaid!

**Dymuna** teulu Gareth Wyn, a fagwyd yn Bryn Meredydd (yma yn y Waun) ei longyfarch ar ei lwyddiant yn ennill gradd Athro mewn Ffiseg gyda anrhydedd o Brifysgol Aberystwyth. Da iawn chdi, Dymunwn y gorau iti i'r dyfodol yn dy swydd gyda Cwmni DLI ym Mharc Menai.

**Llongyfarchiadau** i ddisgyblion blynyddoedd 11, 12 a 13 Ysgol Uwchradd Brynrefail a wobrwywyd am eu llwyddiannau rhagorol yn yr arholiadau TGAU, AS a Lefel A. Rwy'n siŵr bod eich teuluoedd ac athrawon eich ysgol gynradd ac uwchradd yn falch iawn ohonoch.

**Llongyfarchiadau** lu i Ffion Haf, 4 Stad Tŷ Hen ar gael swydd fel Gweithwraig Gymdeithasol yn nhîm amddiffyn plant yn ardal Dwyfor. Pob lwc a dymuniadu da i ti.

**Llongyfarchiadau** i Cain a Luc, Tan y Foel, ar gael eu dewis i feirniadu fife caneries mewn sioeau adar yn Malta, Iwerddon a Lloegr y ystod y misoedd nesaf.

**Dathlu Pen-blwyddi Arbennig** Gan nad wyf yn ddigon cyfarwydd â phobl ifanc y pentref sydd yn cyrraedd eu pen-blwyddi yn 18 a 21 mlwydd oed yn ystod y flwyddyn Medi 2018 i Awst 2019, gofynnaf yn garedig i'w rhieni sydd yn awyddus iddynt gael eu llongyfarch yn yr Eco gysylltu â mi ar y ffôn neu roi nodyn drwy'r drws er mwyn inni wneud hynny. Diolch, Nan

**Pen-blwydd Arbennig** Llongyfarchiadau i Carwyn Owen, Stad Tŷ Hen, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed yn ystod mis Medi. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol, Carwyn.

**Priodasau** Yn ystod mis Mehefin priodwyd Amanda a Liam Williams. Maent wedi ymgartrefu yn Gwylfa, yma yn y Waun. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da ichi eich dau.

Er mai tywydd gwlyb ac eitha gwyntog oedd hi fore Sadwrn, Medi 8, ni amharodd y glaw ar ddiwrnod priodas Dewi, Glyn Awel, a Vivky yn Seiont Manor a chafodd y gwesteion fwynhad o ddathlu gyda hwy. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r pâr ifanc. Maent wedi cartrefu yn Bontnewydd.

**Priodas Aur** Llongyfarchiadau i Doctor Williams a Laura, Tros y Gors, a fu'n dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i chi a chofion cynnes.

**Babanod Bach Newydd** Llongyfarchiadau i Ffion ac Alun, Ty'n Twll, ar enedigaeth eu merch fach, Megan. Chwaer a ffrind fach i Elis a Iago. Merch fach, Lwsi Elen, a anwyd i Jemma a David, 6 Llys y Waun. Mae Cai Dafydd wrth ei fodd gyda'i chwaer fach newydd.

Ganwyd mab bach i Angharad a Cory, Bryn Gwyn. Mae Owi yn ŵyr bach i Carmen a Bryn a gor-ŵyr i Glenys Pierce.

Llongyfarchiadau i'r teuluoedd a chroeso i'r rhai bach.

**Defaid ac Ŵyn Bach Del** Nos Lun, Medi 3, ar y rhaglen Ffermio, ar Sianel S4C fe welsom ni y defaid a'r ŵyn bach del. Gerallt a Kerry oedd yn arddangos y brid 'Valais' gyda eu dau fab bach Alffi Boe a Luca yn eu helpu ar fferm taid a nain, Hafod y Rhug.

**Ymddeoliad** Wedi cyfnod hapus o fod yn gwneud gwaith cyfieithu yng Nghanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, mae Sylvia Prys, Pen y Graig wedi ymddeol. Dymunwn ymddeoliad hapus i ti, Sylvia.

**Newid Ardal** wedi blynyddoedd o fyw ym mhentref y Waun mae Richard ac Annwen Garge wedi symud i fyw i bentref Llanrug. Dymunwn bob hapusrwydd ichi yn eich cartref newydd.

**Bore Coffi** Bore Sadwrn, Medi 15, cynhaliwyd Bore Coffi yn y Ganolfan wedi ei drefnu gan Delyth a'i merch, Lowri, Llys Eryri. Roedd yn braf cael sgwrs dros baned a chacen flasus a'r plant yn mwynhau cwmni eu ffrindiau y lliwio taflu a dal balŵns a gêm o Bingo. Dymunwn ddiolch i'r ddwy am drefnu a pharatoi ac mae hwythau yn diolch yn gynnes iawn am y gefnogaeth a gafwyd gan drigolion y pentref. Casglwyd a chyflwynwyd y swm o £440 tuag at achos Macmillan.

**Adref o'r Ysbyty** Anfonwn ein cofion cynnes at Ann Melin y Wig, wedi iddi gael llawdriniaeth; at Llywela, Stad Tref Eilian a'i merch Diane, Arosfa wedi i'r ddwy ohonynt gael triniaeth ac at Tudur Pritchard, Fferm Cae'r Waun, yntau hefyd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd at Norman, Llidiart Wen, wedi iddo gael triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl. Dymunwn wellhad buan i bawb ohonoch.

**Cydymdeimlwn** â Kevin, Tomos a Beca, Glyn Garth, yn eu tristwch o golli tad yng ngyfraith a thaid annwyl iawn iddynt.

**Diolch** Dymuna Treflyn ac Anne, Treforfan, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd iddynt tra bu Treflyn yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn i bawb.

**Gwerthfawrogi** Roedd pwyllgor y Capel wedi trefnu i anrhegu Mrs Catherine Jones ar ei hymddeoliad o fod yn organyddes y capel yn ystod y gwasanaeth fore Sul, Medi 16 ond, oherwydd y gwynt a'r glaw nid oedd yn bresennol. Ar ôl y gwasanaeth galwodd y blaenor, Eurwyn a'i wraig, Gwenda, sydd hefyd yn organyddes y capel yn Bryn Gwenallt a chyflwyno'r tusw o flodau iddi.

**Cyhoeddiadau Capel y Waun, Mis Hydref**

7: Y Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon

14: Parch Nan Wyn Powell-Davies

21: Parch Angharad Roberts, Trefor

28: John Roberts, Waunfawr.

Bore Sul,Medi 23 cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn y capel. Diolch i aelodau ac athrawon yr ysgol Sul ac i'r aelodau hŷn am eu rhan yn y gwasanaeth. Croesawodd Eurwyn Mr Tudur Pritchard i'r capel a dymunodd wellhad buan iddo wedi ei driniaeth yn yr ysbyty. Anfonodd gofion cynnes at Mrs Nans Hughes ac hefyd at Haydn Jones sydd yn cychwyn ar driniaeth ysbyty yr wythnos hon. Diolchodd Mrs Catherine Jones am y tusw o flodau a dderbyniodd ar ei hymddiswyddiad o fod yn organydd y capel.

# Blwyddyn lwyddiannus i'r Antur

Ddydd Llun 10 Medi, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Antur Waunfawr. Roedd yn gyfarfod llwyddiannus a gynhaliwyd yn adeilad Ysgubor Fawr yr Antur, gyda phresenoldeb gan aelodau'r Bwrdd a staff Antur.

Bu'n flwyddyn brysur a llwyddiannus i Antur Waunfawr; mae'r Antur nawr yn rheoli 15 o fusnesau, ac mae nifer o brosiectau newydd ar y gweill.

Ar hyn o bryd mae Antur Waunfawr yn cyflogi dros 100 o staff ac yn cefnogi 67 o unigolion ag anableddau dysgu. Mae Iechyd a Lles yn ganolog i'r gwasanaethau, ac yn ystod y prosiect Anturio Ymlaen a ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig, cynhaliwyd 37 o weithgareddau gwahanol, gan gynnwys beicio, cerdded, dosbarthiadau ffitrwydd, yoga a therapi adlam.

Mae'r Antur yn rheoli 9 tŷ preswyl, ac yn 2018 cwblhawyd 2 dŷ preswyl newydd ar y safle yn Waunfawr, sy'n gartref i bedwar unigolyn ag anableddau dysgu sy'n derbyn cymorth 24 awr.

Mae byngalo gwyliau hygyrch hefyd yn cael ei hadeiladu ar safle Waunfawr, ac mae'r Antur wedi derbyn arian gan Arloesi Gwynedd Wledig i gynnwys eitemau digidol yn y byngalo a fyddai'n caniatáu i berson ag anableddau fyw'n fwy annibynnol.

Yn dilyn grant o £20,000 gan Sefydliad 'Clothworkers Foundation', bydd y byngalo yn cael ei ddodrefnu i safon 4*, ac mae artist tecstilau lleol, Cefyn Burgess, yn gweithio gyda'r Antur i ddarparu dodrefn meddal o safon.

Mae hyfforddiant a phrofiad gwaith yn bwysig i Antur Waunfawr. Yn y flwyddyn 2017-18 darparwyd 2640 o oriau gwirfoddoli, 30 lleoliad gwaith a 1756 o oriau profiad gwaith, yn ogystal â'r gwaith gyda unigolion ag anableddau dysgu.

Mae'r fenter gymdeithasol yn parhau i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd a bod yn sefydliad sy'n parchu'r amgylchedd. Yn 2017-18, fe wnaeth safle ailgylchu Caergylchu drin 1056 tunnell o blastig ac ailgylchu dros 400 tunnell o bapur. Mae safle Warws Werdd hefyd wedi arbed 305 tunnell o ddillad a dodrefn rhag mynd i safleoedd tirlenwi.

Mae'r Antur yn rheoli 7 acer o dir ac yn parhau i ddarparu cynnyrch cartref i Gaffi Blas y Waun a'r cartrefi preswyl. Yn 2017-18 fe werthwyd cynnyrch mewn nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys Gŵyl Fwyd Caernarfon, yn ogystal â'u Ffair Haf a Ffair Nadolig Miri Siôn Corn.

Mae'r prosiect beicio yn ehangu, ac yn 2018 buddsoddodd yr Antur £90,000 mewn safle newydd ym Mhorth yr Aur, Caernarfon.

Mae llawer o gynlluniau cyffrous ar gyfer 2018-2020, gan gynnwys datblygu'r prosiect Beics Antur ym Mhorth yr Aur, gan ddarparu cyfleoedd beicio a ffitrwydd cynhwysol i'r gymuned leol ac i ymwelwyr â'r ardal.




*Criw Antur Waunfawr yn dathlu llwyddiant Geraint Thomas yn y Tour de France, tu allan i safle newydd Beics Antur ym Mhorth yr Aur, Caernarfon.*

# Apêl afalau Antur Waunfawr

Hoffai Antur Waunfawr ddweud diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cefnogi eu hapêl afalau eleni! Mae'r ymateb wedi bod yn anhygoel; mae'r Antur wedi derbyn cannoedd o afalau dros yr wythnosau diwethaf.

Mae'r Antur bellach wedi dechrau'r broses o wneud seidr, a hefyd wedi adeiladu gwasg seidr allan o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, sy'n eu galluogi i wasgu llawer mwy o afalau yn fwy effeithiol.

Bydd seidr 'Hafan y Waun' yn cael ei werthu ym Miri Siôn Corn yr Antur, a hefyd yng Ngŵyl Fwyd Caernarfon y flwyddyn nesaf. Bydd yr holl arian a godir yn mynd tuag at ymdrechion yr elusen i ddarparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i unigolion ag anableddau dysgu.

Dywedodd Dewi Jones, rheolwr safle Antur Waunfawr: "Mae gennym ni fisoedd prysur o'n blaenau nawr, wrth i ni gychwyn paratoi'r seidr ar gyfer y Nadolig. Rydyn ni mor ddiolchgar am yr holl roddion o afalau a dderbyniwyd, rydym yn gobeithio eleni allu cynhyrchu tua 500 o boteli seidr!"

Mae apêl afalau'r Antur yn parhau, felly os oes gennych chi ormodedd o afalau ar eich coed a ddim eisiau iddynt fynd i wastraff, dewch a nhw draw i Dewi ar safle Antur Waunfawr ym Mryn Pistyll, Waunfawr, LL55 4BJ.



**Aaron Jones Evans gyda'r gwasg seidr newydd a adeiladwyd allan o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu**



**Seidr Hafan y Waun yr Antur**

# PÊL-DROED LLEOL

Erbyn hyn mae rhyw draean o'r gemau cynghreiriol wedi eu cwblhau gan brif dimau Llanrug a Llanberis. Ar hyn o bryd mae Llanrug yn y drydedd safle ond eisioes wedi cael canlyniadau boddhaol i ffwrdd yn Llangefni a Dyffryn Nantlle – y ddau dîm ar y brig. Mae ganddynt wahaniaeth goliau iach hefyd. Yn ddios bydd hon yn gynghrair gystadleuol eleni a bydd angen carfan gref i gynnal sialens drwy'r tymor. Bydd Llanrug hefyd yn gobeithio am rediad da yn y llu cwpanau. Mae dwy gêm anodd oddi cartref yn eu wynebu yn y cwpanau cenedlaethol. Yn ail rownd ragbrofol Cwpan JD Cymru rhaid teithio i Landudno Albion, y tîm odditanynt yn y gynghrair. Dyma ddau dîm sy'n rhwydo'n rheolaidd, felly edrychwn ymlaen am chwip o gêm. Yn Nhlws CPD Cymru rhaid teithio i ardal Wrecsam eto eleni i herio Lex. Ni fydd raid i Lanrug gystadlu yn rownd gyntaf Cwpan Mawddach.

Ar ymweliad ag Eithin Duon cyfeiriodd Dafydd Arfon at berfformiadau ail dîm Llanrug. Tîm ifanc ar y cyfan gydag ambell i 'hen ben' o brofiad. Roedd dull o chwarae y tîm yma yn apelio, ond yn fwy pwysig roedd Dafydd yn cyfeirio at bolisi pendant y clwb i gefnogi'r tîm yma, i sicrhau y bwydo i'r tîm cyntaf o fechgyn lleol – tueddiad oedd wedi gwanhau yn y tymhorau diwethaf. Mae'r agwedd yma i'w ganmol, gan gofio yn y fro hon fod llawer mwy o dimau nag y gall y nifer 'safonol' o chwaraewyr eu bwydo. Tueddiad i symud o glwb i glwb yw'r norm gyfoes. Mae un peth yn sicr, ni chaiff chwaraewyr Llanrug well wyneb i chwarae arno. Mae mewn cyflwr arbennig a diolch i Bryan a Keith Williams am gynnal y safon uchel. Gaeaf sych gobeithio. Anodd fydd ateb gofynion y gynghrair i ymestyn lled y cae, ond hurtni llwyr fuasai cosbi Llanrug o gofio safon y maes a gwaith di-flino y pwyllgor. Braf oedd gwylio y gêm rhwng Llanrug a Phenrhyndeudraeth – oedd wedi dod a'u cefnogwyr triw gyda nhw. Gêm a chwaraewyd yn gystadleuol a hynny yn y Gymraeg. Trueni mai di- Gymraeg oedd y tri swyddog.

Mae chwe phwynt yn gwahanu Llanrug a Llanberis. Ildio goliau yw problem Llanberis a'r chwe gôl a ildwyd ym Modedern yn sefyll allan.

Mewn 9 gêm gynghrair sgorio 13 ond ildio 18. Eto, maent i weld yn codi eu gêm yn erbyn y ceffylau blaen. Bydd yn bwysig i droi maes Ffordd Padarn yn gadarnle os am ddringo'r tabl. Anghysondeb yw bwgan mawr y Darans eto eleni. Taith i Dref Caergybi sydd yn wynebu Llanberis yng Nghwpan Cymru. Nid y gêm hawsaf, ac yn sicr felly yng Nghwpan Mawddach ble bydd rhaid croesi'r bont eto i herio Llangefni, ceffylau blaen y gynghrair. Bydd y ddwy gêm yma yn fesur da o gymeriad y garfan.

Ildio goliau yw prif broblem Waunfawr hefyd ond maent eisioes wedi chwarae nifer o'r timau uwch eu pennau mewn cynghrair yn bendrwm o Fonwysion. Erbyn hyn Waunfawr yw unig gynrychiolwyr y fro yn y Gwpan Iau. Cawsant gêm gartref yn y rownd gyntaf yn erbyn Rhos Utd. o brif adran cylch Dyffryn Conwy.

# GWLAD BEIRDD A … …

Rhoed cryn sylw i ddadorchuddio plac i ddynodi man geni Wyn Davies ym Maes Barcer. Wyn, ex. Deiniolen a Llanberis wrth gwrs. Mae'r stori o Wyn yn cael drop o dim Llanbabs yn dal yn fyw yn y fro. Safon, hwnna ydy o. Cymeriad yw Wyn a diddorol oedd ei glywed yn 'difaru' na ddaeth yn ôl i fyw i Gaernarfon wedi ymddeol o'i yrfa lewyrchus.

Ein tueddiad yn ein broydd lleol yw dynodi man geni beirdd, llenorion neu addysgwyr. Gwir ni chawsom lawer o chwaraewyr yn enedigol o'r fro yma gafodd gapiau llawn ym myd y bêl-droed a rygbi ond yn sicr ar lefel merched cafwyd cryn gynrychiolaeth. Gwisgodd nifer hefyd fest athletau a rhedeg mynydd. Ond, mae un peth yn sicr. Mae nifer o'r rhai a gyfeirwyd atynt wedi aros yn eu bro ac wedi chwarae rhan blaenllaw yng nghynnal clybiau trwy hyfforddi a symbylu yr ifanc i wella safonau.Ar ddiwedd y diwrnod mae'n bosib bydd eu cyfraniad hwy yn fwy gwerthfawr i fyd y campau na sawl 'seren' ryngwladol. Diolch amdanynt.

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyr

# RHEDEG MYNYDD



*Gareth Hughes (rhif 38)enillydd y ras yn arwain o'r cychwyn.*



*Miranda Grant, enillydd ras y merched.*

Cynhaliwyd Ras Elidir eleni ar Ddiwrnod Ffair Nant, ac er i dros hanner cant o redwyr deithio yno o wahanol rannau o ogledd Cymru a thu hwnt, dau redwr lleol aeth â'r prif wobrau.

Gan gychwyn o'r briffordd ger Capel Rehoboth rhaid oedd dilyn y lôn a'r llwybr i gopa'r Elidir cyn gyrru ymlaen am Fwlch y Brecan a chanlyn y grib ar ochr arall Cwm Dudodyn cyn disgyn yn ôl i'r Nant. Taith a achosodd gryn dipyn o anhwylustra i lawer o'r rhedwyr oherwydd y glaw trwm fel roedd yn amser cychwyn y ras a wnaeth y dirwedd yn hynod o lithrig. Daeth amryw un yn ôl yn fwd ac yn friwiau yn dilyn codymau, ond doedd neb wedi brifo'n ddifrifol.

Gareth Hughes o Lanberis enillodd mewn amser o lai nac awr, gyda Miranda Grant, hefyd o Lanberis yn gyntaf yn ras y merched, ac yn curo'r mwyafrif o'r dynion hefyd. Yn nes i'r cefn, ond heb fod yn olaf, roedd Alwyn a Maggie Oliver o Ddinorwig, enillwyr yr adrannau dros 70 oed.

Y Sadwrn canlynol cynhaliwyd Ras Pedol Peris, yr olaf o rasys mynydd yr ardal am eleni, ond roedd yr "Eco" wedi ei anfon i'r wasg cyn derbyn y canlyniadau.

Ymlaen felly am y tymor traws-gwlad dros y gaeaf.....

# Cennad natur yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn wyneb cyfarwydd i ieuenctid y fro



Dros yr haf mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru wedi adrodd hanes chwe chennad awyr agored a llesiant gyda'r nod o annog mwy o bobl i fwynhau byd natur - gan gynnwys Hannah Hughes, a wnaeth newid ei gyrfa i dreulio mwy o amser yn y dirwedd lle cafodd ei magu.

Er iddi gael ei magu wrth droed yr Wyddfa, dim ond yn ddiweddar gwnaeth Hannah syrthio mewn cariad â'r awyr agored. Newidiodd ei hagwedd at dir ei mebyd a'i hysbrydoli i adael ei swydd gyda'r cyngor a dilyn gyrfa yn yr awyr agored.

Erbyn hyn mae hi wedi derbyn hyfforddiant llawn ym maes gweithgareddau awyr agored a'i nod yw gweithio gyda phlant ysgol i ennyn eu diddordeb yng Nghymru a threulio mwy o amser yn yr awyr agored.

Mae Hannah wedi rhannu ei stori fel rhan o ymgyrch Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, sy'n cael ei harwain gan y seren rygbi Jamie Roberts. Cafodd Hannah, sydd wrth ei bodd â gweithgareddau awyr agored, ei dewis fel rhan o ymgyrch Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn gynharach eleni i ddod o hyd i genhadon natur sydd â straeon arbennig am Gymru.

Dywedodd Hannah, cyn aelod o dîm Jwdo Prydain: "Pan oeddwn yn gweithio i'r bwrdd twristiaeth, roeddwn yn edrych ar yr holl luniau gwych o Gymru bob dydd ond doeddwn i ddim wedi eu profi nhw go iawn.

Roeddwn i bob amser yn gwneud llawer o ymarfer corff fel plentyn ond roedd pob un o'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal dan do. Doeddwn i ddim hyd yn oed wedi dringo'r Wyddfa tan ryw bedair blynedd yn ôl, er ei fod reit ar garreg y drws.

Fe wnes i ddysgu'n gyflym fod gen i lawer o bethau roeddwn eisiau eu gwneud. Felly, fe wnes i adael fy swydd gyda'r cyngor a hyfforddi fel arweinydd mynydd, arweinydd mwyngloddiau, hyfforddwr caiacio/ canŵio a chwblhau fy Hyfforddiant Dringo Dringen Sengl mewn blwyddyn. Eryri yw'r maes chwarae gorau yn y byd yn fy marn i."

Wrth gyfarfod ger Llyn Ogwen yn Eryri, un o hoff ardaloedd Hannah a Jamie, fe wnaeth y ddau rannu eu hatgofion am y lle a sgwrsio am sut mae Hannah bellach yn edrych ar y mynyddoedd drwy lygaid gwahanol.

Fe wnaeth Jamie Roberts, cennad Awyr Agored a Llesiant yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, hefyd fynegi ei hoffter am Eryri, gan ddweud: "Stori drasig Gelert yw un o fy hoff chwedlau felly mae mynd i Feddgelert yn un o'r pethau mae'n rhaid eu gwneud yn Eryri.

I ddarganfod rhagor am genhadon Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru a chwilio am ysbrydoliaeth am sut i wneud y gorau o awyr agored gwych Cymru, ewch i: https://www.nationaltrust.org.uk/wales-nature-ambassadors

# Tim pel-droed dan 15 oed Ysgol Brynrefail 1958



Anfonwyd y llun gan Eifion Roberts, Llanberis, a oedd yn aelod o'r tim. Aelwyn Pritchard oedd yr athro ymarfer corff bryd hynny, a diddorol yw gweld enwau cyfarwydd ym myd pel-droed diweddarach timau'r fro. Ond nid yw Eifion yn cofio'r enwau i gyd; felly, pwy all gwblhau'r tim?

Rhes gefn: Stanley Roberts, Bleddyn Roberts, Twm Pritchard, ?, Gwilym Llion Price, ? Evans (mab Rheithor Llanrug).

Rhes flaen: Arfon Lewis, Alan Vincent Owen, Eifion Wyn Roberts, Irfon Thomas, ?.

# RGC YN DANGOS Y FFORDD

Eleni, oherwydd i'r BBC golli cytundeb dangos gemau'n fyw o Gynghrair Rygbi'r Pro 14 rydym yn cael dilyn gemau byw ar nos Wener o Uwch Gynghrair lled-broffesiynol Cymru. Dyma'r haen sydd i fwydo y lefel ranbarthol. Hyd yn hyn cafwyd cryn adloniant, a dull chwarae RGC yn denu cryn drafodaeth. Roedd eu gêm yn erbyn Pontypridd ar Heol Sardis yn uchafbwynt y tymor hyd yn hyn. Yn amlwg mae eu hyfforddwr Mark Jones fel cyn Scarlet am feithrin y gêm agored gyda'r pac yn gyfforddus yn trin y bêl. Heb os, mae trafod a chyflymdra cefnwyr RGC yn denu cryn sylw. Mae eu ffitrwydd amlwg wedi eu galluogi i selio sawl buddugoliaeth yn chwarter olaf y gemau. Yr amcan bellach yw cael clybiau'r Gogledd hefyd i dderbyn y dull yma o chwarae. Ar lefel uwch o lawer dyma sydd wedi rhoddi'r fantais i'r Crysau Duon gyda'u timau rhanbarthol yn efelychu dull o chwarae y tim cenedlaethol.

Yr hyn sy'n amlwg yw fod y mwyafrif o dimau'r De yn dal i ffafrio yr hen ddull o bac mawr cyhyrog yn gyrru ymlaen gyda maswr yn eu gyrru ymlaen drwy gigio i'r corneli. Os yw pac RGC yn gallu dal y pwysau yma yna mae'r mantais yn ffafrio'r gogleddwyr. Er hynny, syndod i mi yw agwedd y sylwebwyr tuag at agwedd RGC o chwarae. Ni theimlaf fod yr agwedd bositif yma yn cael ei ganmol, ac yn wir ym Mhontypridd roedd y sylwebwyr yn dal i deimlo yn hwyr yn y gêm mai dull Ponti fuasai'n llwyddo. Clywyd sawl tro gan Richie Rees y sylwebydd, " They should be kicking there". Dim canmoliaeth tuag at yr agwedd. Y mae'r torfeydd a ddenir i stadiwm Zip World, Bae Colwyn yn dangos pa ddull o chwarae mae'r cefnogwyr eisiau ei weld.

# Chwaraeon

## Teyrnged Clwb Rhedwyr Eryri i Rory

Gyda chalon drom a thristwch mawr y ffarweliwyd â Rory O'Donnell ddydd Mercher, y 5ed o Fedi. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys Gatholig Dewi Sant a'r Santes Helen yng Nghaernarfon. Roedd yr eglwys dan ei sang ac yn dystiolaeth i'r holl fywydau y cyffyrddodd Rory â hwy.

Gydol y gwasanaeth daeth cariad Rory tuag at redeg mynydd i'r amlwg, yn enwedig yn nheyrnged ei frawd Huw yn adrodd hanesion am gerrig gwynion amhosibl eu darganfod a helynt colli awyren.


Daeth hyn a chwerthin i amgylchiad mor drist, ond roedd chwerthin yn rhan bwysig o fywyd Rory, yn enwedig tynnu coes. Gan ei gyd-weithwyr clywsom fel y gallai adrodd stori gyda wyneb difrifol cyn cyrraedd ei diwedd a gorffen gyda gwén fawr a 'dim ond joc'!

Roedd rhai geiriau'n taro tant arbennig. "Y gwasanaeth mwyaf teilwng y gallwn ei roi, nid yn unig i Rory, ond i ni'n hunain hefyd, yw byw ein bywyd gyda'r sél a'r ymroddiad a roddodd ef i fywyd." Dyna fodd arbennig o anrhydeddu Rory.

O gofio cariad Rory tuag at redeg ar y mynyddoedd, addas iawn oedd i'r haul dywynnu arnynt ar ddiwrnod ei ffarwelio. Bydd colled am ei wén heintus a'i awch am fywyd a rhedeg.

Mae meddyliau holl aelodau'r clwb gyda Kelly a'r bechgyn, y teulu, ei ffrindiau a'i gyd-weithwyr.

Gorffwys yn dawel Rory, a rhed yn rhydd.




### Rory

Cae'r ymladd fu y Cremlyn
a daw'r 'diawl' i daro'r dyn,
cnoi, a rhoi Rory'n ei rwyd
o gell i gell fe'i gollwyd.
Rory, dewr, y rhedwr da
Un daniwyd dan fandana;
ei enaid, un â'r mynydd
eirias mewn ras, ysbryd rhydd.
O Lanbêr hyd lôn y byd
ei afiaith rannwyd hefyd.
A oedd gwell drwy ddydd y gwaith?
â gwên, yr herian ganwaith.

O'i hyder, llenwi'r adwy
i'w dri mab, "dad, arwr mwy";
cei eilwaith, sawl tro Kelly
weld ei wên i'th wylio di.
Ei Rory hi yr awr hon
yng nghôl y llu angylion.

Richard Llwyd Jones.

## Chwaraeon Ysgol Brynrefail



### Pel-droed

Cychwyn gwych i dîm Pel-Droed bechgyn dan 18 oed yng Nghwpan Cymru. 4-1 i Brynrefs yn erbyn Ysgol Eirias Park. Aled Williams yn sgorio dwy, Harri Tulliver a Thomas Collins yn sgorio un yr un . Perfformiad cryf yn yr ail hanner gan y hogia, da iawn!

Buddugoliaeth wych yn ddiweddar o 5 i 1 yn Ysgol Friars i dîm pêl droed Bechgyn blwyddyn 9! Osian Tomlinson 3 Gruff Jones 1 Caio Thomas 1




### Pel-rwyd

Ergyd olaf y gêm yn ennill y gystadleuaeth. Gêm derfynol hollol anhygoel, dau dîm o'r safon uchaf. Maes Garmon 10 Ysgol Brynrefail 9



### Rygbi

Gem gyntaf bechgyn blwyddyn 9 Ysgol Syr Hugh vs Ysgol Brynrefail. 45-35 i bechgyn Syr Hugh ond y ddau dim yn chwarae yn arbennig. Dechrau da i'r tymor i'r ddau dim.